Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymchwil gymdeithasol
Social research

Rhif: 05/2011

www.cymru.gov.uk

# Gwerthusiad o'r Strategaeth Cwnsela mewn Ysgolion Cymreig Adroddiad Cam Un

**Gwerthusiad o'r Strategaeth Cwnsela mewn Ysgolion Cymreig**

**Adroddiad Cam Un**

**Gorffennaf 2011**

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid o reidrwydd barn Llywodraeth Cymru.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â

For further information please contact:

Enw: Alison Rees

Adran: Social Research Division

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 02920 801125

Ffacs:

E-bost: Alison.Rees@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2011
ISBN
© Hawlfraint y Goron 2011

# Aelodau'r tîm ymchwil

| | |
|---|---|
| Andy Hill | Pennaeth Ymchwil, Cymdeithas Brydeinig ar Gwnsela a Seicotherapi (BACP) |
| Mick Cooper | Pennaeth Cwnsela, Prifysgol Strathclyde |
| Kate Smith | Cyfarwyddwr Ymchwil, Ipsos MORI Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol[1] |
| Nick Maybanks | Swyddog Ymchwil, Ipsos MORI Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol |
| Karen Cromarty | Uwch-gynghorydd Arweiniol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc |
| Sue Pattison | Cyfarwyddwr Rhaglen Gradd, Prifysgol Newcastle-upon-Tyne |
| Joanne Pybis | Hwylusydd Ymchwil, BACP |
| Angela Couchman | Rheolwr Swyddfa Ymchwil, BACP |

[1] Bu Ipsos Mori yn casglu data i'r cyfrifiad penaethiaid/athrawon cyswllt ac ni fuont wrthi'n ysgrifennu'r adroddiad

## Tabl o'r Cynnwys


| | |
|---|---|
| Crynodeb Gweithredol | 5 |
| 1. Cyflwyniad | 12 |
| Nodau ac Amcanion | |
| Cefndir | |
| 2. Dull | 15 |
| Ymchwil desg | |
| Dadansoddiad o ddata cleient a chanlyniadau a gasglwyd cyn mis Medi 2010 | |
| Cyfrifiad o gwnselwyr yn yr ysgol | |
| Cyfrifiad ymysg Penaethiaid / Athrawon Cyswllt Ysgolion | |
| Cyfrifiad ymysg Arweinwyr/Rheolwyr Gwasanaeth Awdurdodau Lleol | |
| 3. Canfyddiadau | 21 |
| Ymchwil Ddesg | 21 |
| Gwerthuso Data a Chanlyniadau Cleient | 26 |
| Cyfrifiad ymysg Cwnselwyr Ysgol | 42 |
| Cyfrifiad ymysg Penaethiaid / Athrawon Cyswllt Ysgolion | 52 |
| Cyfrifiad ymysg Prif Arweinwyr/Rheolwyr Gwasanaeth Awdurdodau Lleol | 63 |
| 4. Casgliad | 69 |
| 5. Argymhellion | 71 |
| 6. Cyfeiriadau | 72 |
| 7. Atodiadau | 73 |
| Atodiad 1: Cyfrifiad ymysg Cwnselwyr Ysgol | |
| Atodiad 2: Cyfrifiad ymysg Penaethiaid / Athrawon Cyswllt Ysgolion | |
| Atodiad 3: Cyfrifiad ymysg Prif Arweinwyr/Rheolwyr Gwasanaeth | |

## Crynodeb Gweithredol

### Cyflwyniad

Yn 2010 comisiynodd Llywodraeth Cymru gonsortiwm ymchwil dan arweiniad y Gymdeithas Brydeinig ar Gwnsela a Seicotherapi (BACP) i gyflawni gwerthusiad o'i strategaeth cwnsela mewn ysgolion sy'n cael ei roi ar waith ledled Cymru.

### Nodau ac Amcanion

Bellach mae gwerth dwy flynedd a hanner o'r Strategaeth Cwnsela mewn Ysgolion Cymreig wedi'i chyflawni. Mae dau gam i werthusiad y Strategaeth, ac mae adroddiad ar wahân ar y ddau. Nod adroddiad Cam Un yw:

- Asesu effaith ac effeithiolrwydd y Strategaeth Cwnsela mewn Ysgolion Cymreig.
- Gwerthuso llwyddiant cyffredinol gweithredu'r Strategaeth yn genedlaethol ac yn lleol.
- Gwerthuso effeithiau tymor hirach gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion ar blant a phobl ifanc a lleoliad strategol cwnsela ochr yn ochr â gwasanaethau eraill.

Mae cam un y gwerthusiad yn cynnwys pum elfen o gasglu data a dadansoddi. Bydd cam dau (sydd ar ddod) yn adrodd canfyddiadau cyfweliadau manwl a grwpiau ffocws, gan ymgorffori barn defnyddwyr gwasanaeth, disgyblion, rhieni ac athrawon ynghyd â dadansoddiad cost a gwerthusiad o safleoedd peilot ysgolion cynradd.

### Dulliau

Yn ystod Cam Un y gwerthusiad, cyflawnwyd pum elfen o gasglu data a dadansoddi rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2010 i ymgorffori ystod eang o safbwyntiau rhanddeiliaid.

*Ymchwil desg*

Er mwyn pennu'r materion allweddol wrth weithredu'r Strategaeth, dadansoddwyd adroddiadau blynyddol a chofnodion cyfarfodydd i bennu unrhyw broblemau wrth ei weithredu ynghyd ag enghreifftiau o ymarfer da.

*Dadansoddiad o ddata'r cleient a'r canlyniadau a gasglwyd cyn mis Medi 2010*

Un nodwedd allweddol o'r Strategaeth fu'r broses o gasglu data archwilio a gwerthuso fel

mater o drefn gan ddefnyddio'r ffurflenni CORE Person Ifanc (YP-CORE)[2] neu'r Holiadur Cryfderau ac Anawsterau (SDQ)[3] yn yr ysgolion peilot uwchradd a chynradd. Dadansoddwyd y data hwn i asesu effeithiolrwydd y cwnsela ar lefelau trallod seicolegol y disgyblion. Yn debyg, gwnaeth defnydd eang o holiadur gwerthuso safonedig ôl-gwnsela ffurfio sail i ganfyddiadau'r disgyblion ar wasanaethau cwnsela. Cyflawnwyd dadansoddiad o'r wybodaeth ddemograffig oedd yn berthnasol i gleientiaid sydd wedi defnyddio gwasanaethau cwnsela, yn seiliedig ar ddata a ddarparwyd gan ffurflenni cofnod cleientiaid.

*Cyfrifiad o gwnselwyr mewn ysgolion*

Cynhaliwyd arolwg cyfrifiad o'r holl gwnselwyr ysgolion gan ddefnyddio holiadur papur (gweler atodiad 1) gyda'r nod o fesur canfyddiadau wrth weithredu'r cwnsela mewn ysgolion.

*Cyfrifiad o benaethiaid/athrawon cyswllt mewn ysgolion*

I gael trosolwg o weithredu'r Strategaeth ar lefel ysgol, cynhaliwyd cyfrifiad ymysg uwch reolwyr yr ysgol. Ym mhob ysgol, cysylltwyd ag athrawon cyswllt sydd â chyfrifoldeb dros gwnsela yn yr ysgol a gofyn iddynt gymryd rhan mewn cyfweliad 10 munud dros y ffôn gan ddefnyddio protocol strwythuredig (gweler atodiad 2).

*Cyfrifiad o arweinwyr/rheolwyr gwasanaeth mewn awdurdodau lleol*

Cynhaliwyd arolwg ymysg arweinwyr a rheolwyr gwasanaethau cwnsela mewn awdurdodau lleol drwy holiadur ar bapur er mwyn casglu barn a chanfyddiadau ar weithredu'r Strategaeth a thynnu cymhariaeth yn erbyn arolygon a gyflawnwyd ymysg grwpiau eraill (gweler atodiad 3).

## Canfyddiadau


*Effeithiolrwydd cwnsela mewn ysgolion*

Mae anghysondebau yn ansawdd a chyflawnrwydd y data canlyniadau ar draws yr awdurdodau lleol yn golygu dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canlyniadau. Fodd bynnag, mae'r data sydd ar gael o flwyddyn gyntaf y Strategaeth Cwnsela mewn Ysgolion Cymreig yn dangos bod pobl ifanc wedi arddangos gwelliannau mawr o gychwyn y cyfnod cwnsela hyd ddiwedd y cyfnod cwnsela (maint effaith ar gyfartaledd = 1.1), gyda'r canfyddiadau'n cymharu'n ffafriol yn erbyn gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion eraill yn y DU (maint

[2] Y ffurflen CORE Person Ifanc (YP-CORE), mesur gyda 10-eitem o anawsterau seicolegol ar gyfer plant 11-16 mlwydd oed (Twigg, et al., 2009) http://www.coreims.co.uk/forms_mailer.php
[3] Holiadur Cryfderau ac Anawsterau (SDQ), mesur wedi hen sefydlu o anawsterau seicolegol mewn plant a phobl ifanc (Goodman, 2001) http://www.sdqinfo.org/

effaith ar gyfartaledd = 0.81). Dangosir y newid mewn sgorau cyn ac ôl gwnsela ar draws awdurdodau lleol Cymru (ble mae data cadarn ar gael) yn y ffigur isod (Ffigur 1, tud 37 y prif adroddiad), gyda gostyngiad yn y sgôr ar gyfartaledd yn awgrymu gwelliant ar ôl cwnsela o'i gymharu â chyn cwnsela.

**Newid i'r sgôr cyn cwnsela ac ôl gwnsela ar draws yr Awdurdodau Lleol yng Nghymru wnaeth ddychwelyd data cadarn**




Ffynhonnell: Darparwyd data YP-CORE ac SDQ gan awdurdodau lleol

Mae manylion demograffig a manylion sesiwn ar gyfer pobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau'n gyflawn iawn, gan gyflwyno darlun eglur o bwy sy'n defnyddio'r gwasanaethau ac ym mha ffordd. Mae proffil y bobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaethau ac, fel y dangosir yn y tabl isod, mae'r problemau a gyflwynir ganddynt yn debyg iawn i ddarpariaethau cwnsela arall yn y DU, gyda disgyblion yn bennaf yn cyflwyno gyda phroblemau sy'n berthnasol i'r teulu, ac wedyn dicter a phroblemau yn gysylltiedig ag ymddygiad (Tabl 3, tud 36 y prif adroddiad). Mae cyfraddau presenoldeb yn uchel, gyda phobl ifanc yn mynychu tua phedwar sesiwn cwnsela i bob pennod ar gyfartaledd.[4]

[4] Diffinnir cyfnod o gwnsela fel cyfres gyflawn o sesiynau a gyflawnir gan ddefnyddiwr gwasanaeth. Fel arfer mae sesiwn cwnsela yn para tuag 1 awr. Cynhelir y rhain fel arfer ar sail wythnosol neu bob pythefnos.

## Problemau wrth gyflwyno

| Problem wrth gyflwyno | Rhif | Canran[5] | Safle'r Sampl Cymreig | Safle Cyfartalog y DU[6] |
|---|---|---|---|---|
| Teulu | 2368 | 56.9% | 1 | 1 |
| Dicter | 1015 | 24.4% | 2 | 2 |
| Perthnasol i ymddygiad | 734 | 17.6% | 3 | 4 |
| Straen | 611 | 14.7% | 4 | 10 |
| Profedigaeth | 608 | 14.6% | 5 | 8 |
| Bwlio | 604 | 14.5% | 6 | 9 |
| Hunan werth | 525 | 12.6% | 7 | 6 (hunan / hunan barch) |
| Iselder | 465 | 11.2% | 8 | 7 |
| Perthnasau heblaw am deulu neu athrawon | 385 | 9.2% | 9 | 5 (cyffredinol) |
| Perthynas gydag athrawon | 292 | 7% | 10 | 5 (cyffredinol) |
| Hunan-niwed | 287 | 6.9% | 11 | 14 |
| Camdriniaeth (gan gynnwys rhywiol) | 235 | 5.6% | 12 | 13 |
| Academaidd | 212 | 5.1% | 13 | 3 (Ysgol) |
| Camdriniaeth gartref | 130 | 3.1% | 14 | amherthnasol |
| Anhwylder bwyta | 118 | 2.8% | 15 | amherthnasol |
| Camddefnyddio sylweddau | 96 | 2.3% | 16 | amherthnasol |
| Meddyliau am hunanladdiad | 83 | 1% | 17 | amherthnasol |
| Rhywiol (gan gynnwys cyfeiriadedd) | 72 | 1.7% | 18 | amherthnasol |
| Pryderon ariannol / tlodi | 44 | 1% | 19 | amherthnasol |
| Arall | 388 | 9.3% | 20 | amherthnasol |
| Anhysbys | 49 | 1.2% | 21 | amherthnasol |

Ffynhonnell: Darparwyd data o ffurflenni cofnodi cleientiaid, haf 2008-09 hyd haf 2009-10, a gyflawnwyd gan gwnselwyr mewn ysgolion ac a roddwyd i'r tîm gwerthuso gan Lywodraeth Cymru

[5] Noder: gan y cofnodwyd bod pobl ifanc wedi cyflwyno hyd at dair problem, mae cyfanswm y canran yn uwch na 100

[6] Safle Cyfartalog y DU gan Cooper (2009)

*Gweithlu cwnsela'r ysgol*


Mae cwnselwyr yn bennaf yn ferched, yn wyn ac yn Brydeinig, gyda'r mwyafrif helaeth (86%) yn aelodau o gorff proffesiynol, yn enwedig BACP. Mae'r corff yma'n sicrhau bod cwnselwyr wedi ymrwymo i fframwaith moesegol a'u bod yng nghlwm i weithdrefn gwyno. Mae gan y mwyafrif brofiad blaenorol o weithio gyda phlant a phobl ifanc (93%). Mae cryn amrywiaeth yn y dulliau therapiwtig a ddefnyddir gan gwnselwyr ac yn lefel eu cymwysterau, er mae'r mwyafrif (73.5%) wedi hyfforddi i lefel ôl-raddedig. Roedd data'r arolwg yn awgrymu bod angen cyfleoedd hyfforddi pellach ar gyfer cwnselwyr a staff ysgolion, y naill fel y llall.

*Gwasanaethau cwnsela*

Ar y cyfan, mae gwasanaethau'n hyblyg yn nhermau'r nifer o sesiynau a gynigir i ddisgyblion a'u lleoliad, gyda gwasanaethau cwnsela'n gweithredu oddi mewn a'r tu allan i eiddo'r ysgol. Trefnir gwasanaethau ar sail reolaidd yn hytrach nac ar sail ad hoc, a'r amser aros ar gyfartaledd yw 1-2 wythnos. Cofnodwyd bod perthynas gweithio agos gyda gwasanaethau arbenigol megis CAMHS, gyda dau draean o gwnselwyr wedi gwneud neu wedi derbyn cyfeiriadau, a mynegwyd bod lefelau uchel o fodlonrwydd mewn perthynas ag integreiddio'r gwasanaethau i ddarpariaeth ysgol (dros 80% yn cytuno o fewn pob grŵp rhanddeiliad), y dulliau ar gyfer monitro a gwerthuso gwasanaethau (dros 75% yn cytuno o fewn pob grŵp rhanddeiliad), hygyrchedd y gwasanaethau (o leiaf 80% yn cytuno o fewn pob grŵp rhanddeiliad), a'r gwerth a roddir i'r gwasanaethau gan staff yr ysgol, disgyblion a rhieni.

Roedd dros hanner yr ysgolion fu'n cymryd rhan yn yr arolwg wedi cynnig gwasanaeth cwnsela cyn ei weithredu fel rhan o'r Strategaeth, ac ymddengys bod y gwasanaethau wedi gwella ers cyflwyno'r Strategaeth. Mae data'r arolwg yn awgrymu mai bychan fu effaith sefydlu gwasanaethau ar faich gwaith staff, ond ymddengys bod cyrhaeddiad, presenoldeb ac ymddygiad disgyblion sydd wedi derbyn cwnsela mewn ysgol wedi gwella (65%, 69% ac 80% yn ôl eu trefn, gweler y ffigur isod, Ffigur 12, tud 60 y prif adroddiad). Roedd cytundeb net sylweddol (91%) ymysg penaethiaid/athrawon cyswllt bod gwasanaeth cwnsela'r ysgol yn diwallu anghenion y disgyblion.

**Canfyddiadau o effaith y gwasanaeth cwnsela mewn ysgol ar gyrhaeddiad, presenoldeb ac ymddygiad disgyblion**




Ffynhonnell: Cyfrifiad ffôn pennaeth/athro cyswllt

Mae amrywiad yn y canfyddiadau ar draws y gwahanol grwpiau o randdeiliaid ar sensitifrwydd y gwasanaethau i anghenion siaradwyr Cymraeg, gyda'r lefel uchaf o fodlonrwydd ymysg arweinwyr/rheolwyr gwasanaeth mewn Awdurdodau Lleol (56%) ac wedyn, cwnselwyr ysgolion (47%) ac yna penaethiaid/athrawon cyswllt (28%).

*Adnoddau*

Daw darlun cymysg i'r amlwg yn nhermau lefelau bodlonrwydd gydag adnoddau. Pan ofynnwyd am argymhellion i wella'r gwasanaeth cwnsela roedd cyfran arwyddocaol o ymatebion gan randdeiliaid yn galw am gynnydd mewn cyllid, cynnydd yn lefelau staffio, ac am sicrhau bod mwy o sesiynau cwnsela ar gael i ddisgyblion.

## Casgliadau ac Argymhellion

Mae'r ymateb uchel iawn i'r holl arolygon a gynhaliwyd yn awgrymu bod y lefelau uchel o gytundeb a bodlonrwydd gyda'r Strategaeth, a ganfuwyd ymysg y grwpiau rhanddeiliaid allweddol, yn ganfyddiadau cadarn a dibynadwy. Er bod data'r canlyniadau'n llai dibynadwy, mae'r arwyddion cynnar yn awgrymu bod ymyrraeth cwnsela yn hynod o effeithiol wrth ostwng lefelau trallod ymysg disgyblion.

Mae'r argymhellion allweddol fel a ganlyn:

- Dylai awdurdodau lleol a gwasanaethau unigol wneud pob ymdrech i gasglu data canlyniadau mwy cyflawn ac unffurf i sicrhau gellir mesur effeithiolrwydd cwnsela mewn ysgolion.

- Dylai fod awdurdodau lleol ac ysgolion yn cynnig cyfleoedd ehangach ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus rheolaidd i gwnselwyr mewn ysgolion a hyfforddiant i staff ysgolion er mwyn deall cwnsela mewn ysgolion.

- Dylid cynnal archwiliad pellach ar sut mae gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion yn diwallu anghenion siaradwyr Cymraeg fel rhan o'r gwerthusiad yng Ngham Dau.

- Dylid monitro sut caiff y Strategaeth ei adnoddau er mwyn sicrhau bod lefelau digonol o staffio a bod gwasanaethau'n parhau i ateb y galw.

# 1 Cyflwyniad

Yn 2010 comisiynodd Lywodraeth Cymru gonsortiwm ymchwil dan arweiniad y Gymdeithas Brydeinig ar Gwnsela a Seicotherapi (BACP) i gyflawni gwerthusiad o'i strategaeth cwnsela mewn ysgolion sydd wedi cael ei roi ar waith ledled Cymru dros y ddwy flynedd a hanner diwethaf.

**Nodau ac Amcanion**

1.1. Nod cyffredinol y gwerthusiad yw asesu effaith ac effeithiolrwydd y Strategaeth Cwnsela mewn Ysgolion Cymreig.

1.2. Ei amcanion yw gwerthuso llwyddiannau cyffredinol gweithredu'r Strategaeth yn genedlaethol ac yn lleol ac i werthuso effaith gwasanaethau cwnsela mewn ysgol ar blant a phobl ifanc yn y tymor hirach, a'u safle Strategol ochr yn ochr â gwasanaethau eraill.

1.3. Mae'r gwerthusiad mewn 2 gam, ac mae adroddiad ar wahân i'r ddau. Mae Cam Un y gwerthusiad yn cynnwys pum elfen o gasglu data a dadansoddi, ymchwil desg, dadansoddiad o ddata cleientiaid a chanlyniadau, cyfrifiad o benaethiaid/athrawon cyswllt, cyfrifiad o arweinwyr/rheolwyr gwasanaethau mewn awdurdodau lleol. Caiff Cam Dau ei gyflawni erbyn mis Medi 2011, a bydd yn adrodd ar ganfyddiadau cyfweliadau manwl a grwpiau ffocws, gan ymgorffori barn defnyddwyr gwasanaeth, disgyblion, rhieni ac athrawon, ynghyd â dadansoddiad cost a gwerthusiad o leoliadau peilot ysgolion cynradd. Bydd y consortiwm ymchwil yn gweithio gyda phartneriaid ychwanegol er mwyn cyflawni ail gam y gwerthusiad.

**Cefndir**

1.4. Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae cwnsela mewn ysgolion uwchradd y DU wedi tyfu'n sylweddol. Ystyrir bod cwnsela sy'n cael ei ddarparu gan weithlu sydd wedi derbyn hyfforddiant proffesiynol, yn ymyrraeth gynnar effeithiol i bobl ifanc sydd â phroblemau emosiynol, ymddygiadol neu gymdeithasol. Ystyrir cwnsela yn ffordd i'r bobl ifanc gyfeirio at eu problemau gydag oedolyn dibynadwy, a thrwy hyn fynd yn ôl ar y 'trywydd iawn' yn eithaf sydyn.

1.5. Mae ymchwil ar natur ac effeithiolrwydd cwnsela mewn ysgolion yn dod i'r amlwg yn gyflym. Mewn adolygiad o 30 o astudiaethau archwilio a gwerthuso sy'n tynnu ar

ddata gan fwy na 10,000 o bobl ifanc, daeth Cooper (2009, t.147) i'r canlyniad bod person ifanc 'nodweddiadol' sy'n dod at wasanaeth cwnsela mewn ysgol yn "debygol o fod tua 14 mlwydd oed, yn profi anawsterau seicolegol ers chwe mis neu'n hwy sydd ar lefel agos i'r rhai sy'n mynychu unedau CAMHS, a'u bod yn fwy tueddol o fod yn ferched. Gan amlaf, cânt eu cyfeirio at y cwnsleydd drwy system gofal bugeiliol eu hysgol, ac maent yn mynychu - yn eithaf rheolaidd - tua phedwar i saith sesiwn. Os ydynt yn ferch, maent yn fwy tebygol o gyflwyno a thrafod problemau teuluol a phroblemau perthynas; ac os ydynt yn wryw, problemau teuluol a/neu broblemau gyda dicter. Erbyn diwedd y cwnsela, maent yn debygol o fod yn teimlo'n sylweddol well, ac yn debygol o briodoli rhan helaeth o'r gwelliant yma i'r gwasanaeth cwnsela. Gan amlaf, byddant yn dynodi mai'r rheswm am hyn yw iddo roi cyfle iddynt drafod a rhannu eu problemau. O ganlyniad i'r gwellant yma, hwyrach y byddant hefyd yn teimlo y gallant ymrwymo gyda dysg yn well." Er bod y mwyafrif o'r dystiolaeth am effeithiolrwydd yn adolygiad Cooper yn deillio o astudiaethau o gwnsela sy'n canolbwyntio ar unigolyn neu gwnsela dyneiddiol, doedd dim tystiolaeth bod un dull yn fwy effeithiol nag un arall.

1.6. Mae hanes cwnsela mewn ysgolion yng Nghymru yn deillio o argymhelliad gan Gomisiynydd Plant Cymru i'r Adroddiad Ymchwiliad Clywch[7]. Roedd Adroddiad Clywch yn awgrymu dylai bod oedolyn dibynadwy ar gael i bob person ifanc mewn ysgol i drafod eu pryderon. Derbyniwyd yr argymhelliad hwn gan Lywodraeth Cymru, ac yn 2007 comisiynwyd tîm ymchwil gan Llywodraeth Cymru dan arweiniad Cymdeithas Brydeinig ar Gwnsela a Seicotherapi (BACP) a Phrifysgol Newcastle i werthuso cwnsela mewn ysgolion ar draws y DU (Pattison et al., 2007)[8]. Diben yr adroddiad yma oedd gwerthuso cwnsela mewn ysgolion ar draws y DU a gwneud argymhellion ar gyfer datblygu cwnsela mewn ysgolion yng Nghymru. Ym mis Ebrill 2008, cyhoeddodd Lywodraeth Cymru'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cwnsela mewn Ysgolion[9] gafodd ei chyfarwyddo gan adroddiad Pattison et al., (2007). Roedd y ddogfen yn traethu ymrwymiad Llywodraeth Cymru y dylai pob disgybl ysgol yng Nghymru fedru cyrchu gwasanaethau cwnsela. Mae hefyd yn un o'r gweithredoedd allweddol yn y Fframwaith Gwasanaeth ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru.

[7] http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2004/060704JDclywch?lang=en
[8] Mae'r adroddiad llawn ar gael yn http://www.bacp.co.uk/research/School_Counselling.php
[9] http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/counsellingservicesstrategy/?lang=cy

1.7. Cwnsela yw un o'r ystod o wasanaethau sy'n helpu i gefnogi iechyd, ac anghenion emosiynol a chymdeithasol disgyblion ac mae'n arwain at ddiwylliant ysgol iach. Therapi "siarad" yw cwnsela a gynigir fel arfer ar sail un i un, mewn sesiynau wythnosol tuag awr o hyd. Mae'r sesiwn yn gyfrinachol (gyda therfynau mewn lle os daw peryglon i'r amlwg), ac nid yw'n gyfarwyddiadol yn yr ystyr ei fod yn annog disgyblion i siarad am beth bynnag sydd ar eu meddwl, archwilio'r materion hyn a datblygu atebion mewn awyrgylch o gydweithio rhwng y cwnselydd a'r disgybl.[10]

1.8. Nod y Strategaeth yw sicrhau bod gwasanaethau cwnsela ar gael ym mhob ysgol uwchradd yng Nghymru. Mae hefyd wedi sefydlu gwasanaethau peilot o fewn ysgolion cynradd mewn pedwar awdurdod lleol. Un o'r gweithredoedd yng Ngwasanaethau Cwnsela mewn Ysgolion yng Nghymru Llywodraeth Cymru oedd datblygu safonau a chanllawiau ar gyfer cwnselwyr a gwasanaethau cwnsela. Datblygwyd "Pecyn Cymorth"[11] fel gweithred o'r strategaeth cwnsela mewn ysgolion, sy'n rhoi canllawiau i ysgolion ac awdurdodau lleol ar sut i sefydlu a monitro gwasanaethau cwnsela. Roedd y ddogfen hon yn cynghori sut i gasglu data gwasanaeth a'r cleient yn rheolaidd gan ddefnyddio holiaduron safonedig, er mwyn hwyluso'r broses o werthuso cwnsela mewn ysgolion.

1.9. Gwnaeth Llywodraeth Cymru ddarparu cyllid cychwynnol o £1 miliwn yn 2008-09, £2.5 miliwn yn 2009-10 a £3 miliwn yn 2010-11 i symud ymlaen â'r Strategaeth. Cytunwyd ar £1.5 miliwn ychwanegol ar gyfer 2010-11 i ehangu gwasanaethau ar draws pob ysgol uwchradd, ymestyn y Strategaeth i flwyddyn 6 ysgolion, ysgolion arbennig, unedau cyfeirio disgyblion ac yn benodol i sicrhau cynhwysiant plant a phobl ifanc gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

1.10. Ar hyn o bryd, gall bob ysgol uwchradd yng Nghymru gyrchu cwnsela. Bu rhaglen genedlaethol o hyfforddiant amddiffyn plant, ac mae ymrwymiad pellach gan y llywodraeth o £14.25 miliwn o arian ar gyfer y tair blynedd nesaf. Gan fod gweithredu'r Strategaeth wedi hen gychwyn, a'i bod ar y blaen i'r amserlen, mae'n amserol y caiff ei effaith a'i effeithiolrwydd ei werthuso ac y cyflwynir argymhellion ar gyfer ei ddatblygiad yn y dyfodol. Mae tîm ymchwil sy'n cynnwys BACP, Prifysgol Strathclyde, Ipsos MORI a Phrifysgol Newcastle wedi cydweithio i gyflawni'r gwerthusiad hwn sydd mewn dau gam. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys Cam Un y gwerthusiad, sy'n gosod

[10] Ffynhonnell: http://www.bacp.co.uk/information/education/whatiscounselling.php
[11] Pecyn Cymorth Gweithredu Cwnsela mewn Ysgolion http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/091019toolkiten.pdf

manylion canfyddiadau’r data a gasglwyd a’r dadansoddiad a gyflawnwyd dros y cyfnod Medi - Tachwedd 2010.

# 2 Dull

Mae’r adran hon yn cynnwys disgrifiad byr o’r meini prawf a ddefnyddiwyd i ddatblygu’r offer casglu data, ynghyd â manylion y pum elfen o gasglu data. Nodir y grwpiau o gyfranogwyr (e.e. cwnselwyr ysgol), y dulliau casglu data a ddisgrifir, ynghyd â’r math o ddata a gasglwyd.

**Trosolwg o’r Dulliau**

2.1. Datblygwyd y strategaeth werthuso drwy gydweithio’n agos gyda Grŵp Llywio’r prosiect ac roedd yn ceisio ymgorffori barn ystod o randdeiliaid allweddol. Mae’r rhain yn cynnwys cwnselwyr ysgol, uwch reolwyr (e.e. penaethiaid) sy’n gyfrifol am redeg gwasanaethau mewn ysgolion ac arweinwyr awdurdodau lleol sy’n gyfrifol am weithredu’r Strategaeth Genedlaethol Cwnsela mewn Ysgolion. Gwnaeth Adroddiad Pattison et al., (2007) 10 o argymhellion, y dylai gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion:

1. Bod â chyllid cynaliadwy.
2. Cyflogi cwnselwyr cymwys proffesiynol sydd â phrofiad o weithio gyda phobl ifanc, sy'n medru cael goruchwyliaeth glinigol briodol gyda goruchwylwyr profiadol, ac sy'n ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus (CPD), perthnasol a rheolaidd.
3. Darparu gwasanaethau cwnsela hygyrch mewn lleoliad priodol preifat ond diogel yn amgylchedd yr ysgol.
4. Cael eu hystyried gan gymuned yr ysgol yn rhai nad ydynt yn stigmateiddio ac sy'n rhan arferol o ddarpariaeth yr ysgol, sydd wedi'i integreiddio yng nghymuned yr ysgol.
5. Cael eu monitro a'u gwerthuso gan unigolion neu asiantaeth (yn yr ysgol neu y tu allan iddi) sydd â phrofiad yn y maes arbenigol hwn o weithio.
6. Talu sylw dyledus i'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau cyfredol, a chynnig cyfrinachedd o fewn y terfynau moesegol a diogelwch arferol.
7. Ymateb yn hyblyg i'r anghenion lleol o ran amrywiaeth (ee iaith) ac ymarferoldeb (ee bod ar gael yn ystod gwyliau ysgol)
8. Gweithio gyda gwasanaethau ac asiantaethau eraill ac ar y cyd â hwy mewn dull ymgynghorol, gan gynnal y lefelau priodol o gyfrinachedd

9. Cyflogi cwnselwyr sy'n aelodau o gorff proffesiynol ac sydd felly'n cydymffurfio â fframwaith moesegol a gweithdrefn gwynion sefydledig.
10. Cyflogi cwnselwyr y mae eu nodweddion personol yn golygu eu bod yn hawdd siarad â hwy, bod ganddynt sgiliau gwrando da a ffordd o ymddwyn sy'n meithrin perthnasau diogel ac sy'n ennyn ymddiriedaeth.

2.2. Defnyddiwyd yr argymhellion hyn fel meini prawf ar gyfer asesu'r Strategaeth i sicrhau cysondeb rhwng y gwerthusiad yr adroddir arno ar hyn o bryd a'r adroddiad gwreiddiol (2007). O ganlyniad mae llawer o'r eitemau a ddatblygwyd ar gyfer yr offer casglu data amrywiol yn deillio o'r argymhellion hyn. Mae hyn yn caniatáu cymhariaeth ar draws yr amrywiol grwpiau rhanddeiliaid ac yn caniatáu gwneud cysylltiadau gyda'r gwerthusiad gwreiddiol (2007). Yn seiliedig ar yr ymagwedd yma, cyflawnwyd pum elfen o gasglu data a dadansoddi rhwng Medi a Thachwedd 2010 ac adroddir arnynt yma.

*Ymchwil desg*

2.3. I nodi'r materion allweddol wrth weithredu'r Strategaeth dadansoddwyd adroddiadau blynyddol o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru ynghyd â chofnodion cyfarfodydd Grwpiau Llywio, Grwpiau Consortia a'r Grŵp Cymru Gyfan ar gyfer cwnsela mewn ysgolion yng Nghymru. Aseswyd y problemau a brofwyd wrth weithredu'r Strategaeth a nodwyd enghreifftiau o arfer da.

*Dadansoddiad o ddata cleient a chanlyniadau a gasglwyd cyn mis Medi 2010*

2.4. Nod allweddol o'r gwerthusiad yw asesu'r canlyniadau i ddefnyddwyr cwnsela mewn ysgolion. Roedd casglu data archwilio a gwerthuso yn rheolaidd yn un o argymhellion adroddiad 2007 ac mae wedi arwain at fonitro canlyniadau gan ddefnyddio'r ffurflenni CORE Person Ifanc (YP-CORE)[12] neu'r Holiadur Cryfder ac Anawsterau (SDQ)[13] yn yr ysgolion peilot uwchradd a chynradd.

2.5. Mae'r ffurflen CORE Pobl Ifanc (YP-CORE) yn fesur 10 eitem o anawsterau seicolegol i bobl ifanc rhwng 11 a 16 mlwydd oed (Twigg, et al., 2009). Fe'i haddaswyd o'r CORE-OM ("Canlyniadau Clinigol mewn Gwerthusiad Rheolaidd – Mesur Canlyniadau", Barkham, et al., 2001), a hwn yw'r trydydd diwygiad o'r mesur

[12] Y ffurflen CORE Person Ifanc (YP-CORE), mesur gyda 10-eitem o anawsterau seicolegol ar gyfer plant 11-16 mlwydd oed (Twigg, et al., 2009) http://www.coreims.co.uk/forms_mailer.php
[13] Holiadur Cryfderau ac Anawsterau (SDQ), mesur wedi hen sefydlu o anawsterau seicolegol mewn plant a phobl ifanc (Goodman, 2001) http://www.sdqinfo.org/

yma (y diwygiadau eraill oedd “Teen-CORE” 14 eitem a “CORE Pobl Ifanc 18 eitem f.1”, Twigg et al., 2009). Gofynna’r mesur i bobl ifanc raddio sut roeddent yn teimlo mewn perthynas ag eitemau penodol dros yr wythnos aeth heibio ar raddfa pum pwynt (0 = Dim o gwbl, 4 = Rhan fwyaf o’r amser). Rhai enghreifftiau o’r eitemau ar y mesurau yw “Rwyf wedi bod yn teimlo ar bigau drain neu’n nerfus” ac “Rwyf wedi bod yn teimlo y gallaf ymdopi pan aiff pethau o’i le” (eitem o chwith). Caiff y graddfeydd eu cyfartalu ac wedyn eu lluosi gyda 10 i roi sgôr cyffredinol rhwng 0 a 40, gyda’r sgorau uwch yn awgrymu lefelau uwch o drallod seicolegol. Er diben yr astudiaeth bresennol, ystyriwyd bod ffurflenni YP-CORE yn dderbyniol os cwblhawyd wyth neu fwy o eitemau. Profwyd bod y mesur YP-CORE yn dderbyniol i bobl ifanc; gyda dibynadwyedd da rhwng eitemau (α Cronbach = 0.85) – sy’n gyson ar draws rhyw ac oed (Twigg, et al., 2009). Hwn yw’r mesur a ddefnyddir yn fwyaf eang mewn gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion o fewn y DU (Cooper, 2009). Dangosodd data o’r astudiaeth bresennol bod gan y mesur lefelau derbyniol o ddibynadwyedd rhwng eitemau, gyda α Cronbach o .78 ar y llinell sylfaen a’r pwynt terfyn.

2.6. Mae’r Holiadur Hunan Adroddiad ar Gryfderau ac Anawsterau (SDQ) yn offeryn sgrinio ymddygiad ar gyfer plant a phobl ifanc (rhwng 11 ac 16 mlwydd oed) sydd wedi cael ei ddefnyddio’n eang a’i ddilysu, a gellir hefyd ei ddefnyddio i werthuso effeithiolrwydd ymyriadau penodol (Goodman, 2001). Gofynnir i bobl ifanc werthuso 25 eitem yn ôl sut roeddent yn teimlo dros y chwe mis diwethaf (ar gyfnod asesu) a thros y mis diwethaf (yn yr asesiad dilynol), a gofynnir iddynt gwblhau ‘Atodiad Effaith’ sy’n asesu’r trallod a’r niwed cyffredinol mewn gwahanol feysydd bywyd. I’r ddau fesur yma, byddai sgôr uwch yn dynodi lefelau uwch o drallod seicolegol. Felly byddai gostyngiad yn y sgôr rhwng mesurau cyn therapi ac ar ôl therapi’n awgrymu i’r ymyrraeth fod yn effeithiol wrth ostwng lefel trallod mewn plant a phobl ifanc.

2.7. Mae’r gwerthusiad cyfredol, sydd wedi’i seilio mewn lleoliad naturiolaidd, yn mabwysiadu dyluniad “garfan”. Mae hwn yn asesu newid yn y bobl ifanc sy’n mynychu cwnsela o’r cyfnod cyn ymyrraeth hyd y cyfnod ôl ymyrraeth. O’i gymharu gyda’r ‘safon aur’ o ymchwil gwerthuso, mae’r hap dreial wedi’i reoli – ble caiff newidiadau mewn grŵp triniaeth eu cymharu yn erbyn newidiadau mewn grŵp heb driniaeth dros yr un cyfnod – mae’r dyluniad cyfredol yn rhoi lefel is o sicrwydd mai’r ymyrraeth wnaeth achosi’r gwelliant. Y rheswm am hyn yw bod defnyddio grŵp heb driniaeth yn caniatáu i ymchwilwyr reoli newidiadau naturiol dros amser. Fodd bynnag mae hap dreial wedi’i reoli yn golygu lefel uchel o driniaeth arbrofol ac mae’n hynod ddrud, ac ni

fyddai'n ymarferol yn y lleoliad cyfredol. Ymhellach, mae dyluniad carfan yn caniatáu casglu casgliad mwy o lawer o ddata canlyniadau, o ymarferion sy'n cynrychioli ymarfer arferol, a chaniatáu sefydlu meini prawf y gellir gwerthuso effeithiolrwydd gwasanaethau yn eu herbyn. Yn aml, caiff meini prawf o'r fath eu mynegi fel maint effaith (am fwy o wybodaeth gweler troednodyn 42, tudalen 37) sy'n dynodi'r lefel gwelliant ar gyfartaledd y gallai gwasanaeth ddisgwyl ei gyrraedd ymysg poblogaeth ei gleientiaid.

Casglwyd hyn a data ychwanegol a'i ddadansoddi i nodi:

1 Defnydd gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion
2 Proffil demograffig o ddefnyddwyr gwasanaeth
3 Problemau wrth gyflwyno
4 Gwelliant ar gyfartaledd o'r cyfnod cyn cwnsela i'r cyfnod ôl-gwnsela (canlyniadau tymor byr) a sut mae hyn yn cymharu yn erbyn meini prawf cenedlaethol
5 I ba raddau mae data canlyniadau ar gael ar draws awdurdodau lleol

Yn yr un ffordd, mae defnydd eang o holiadur gwerthuso safonedig ôl gwnsela yn caniatáu i ddata ar ganfyddiadau'r defnyddwyr o'r gwasanaethau cwnsela gael ei gasglu a'i ddadansoddi. Mae'r materion allweddol yma'n cynnwys:

1 Bodlonrwydd defnyddwyr gyda'r gwasanaeth cwnsela
2 Canlyniadau a adroddwyd gan unigolion (megis gwelliant mewn lles meddyliol/emosiynol, agwedd well yn yr ysgol, deallusrwydd emosiynol gwell)
3 Gwerthusiad y disgyblion eu hunain o'r gwasanaeth cwnsela

2.8. Ffurflenni cofnodi cleientiaid sy'n cynnig gwybodaeth ddemograffig ar y niferoedd o bobl ifanc sy'n mynychu sesiynau cwnsela a'r problemau penodol a gyflwynir ganddynt, ochr yn ochr â gwybodaeth ar ryw, hil, rhywioldeb ayyb., sydd wedi'u cwblhau ar gyfer pob person ifanc sy'n mynychu sesiynau cwnsela ar draws pob awdurdod lleol yng Nghymru rhwng (ac yn cynnwys) haf 2008-09 a haf 2009-10. Darparwyd y rhain i'r Tîm Gwerthuso ar ffurf taenlen Excel tymhorol. Caiff Ffurflenni Cofnod Cleient eu cwblhau ar ddiwedd pennod[14] o gwnsela ar gyfer pob person ifanc, fel y caiff pob pennod cwnsela ar gyfer pob person ifanc ei gynrychioli unwaith yn unig.

---

[14] Diffinnir cyfnod o gwnsela fel cyfres gyflawn o sesiynau a gyflawnir gan ddefnyddiwr gwasanaeth. Fel arfer mae sesiwn cwnsela yn para tuag 1 awr. Cynhelir y rhain fel arfer ar sail wythnosol neu bob pythefnos.

Mae data ar gael ar:

- Cyfanswm niferoedd y bobl ifanc sy’n mynychu cwnsela
- Rhyw
- Ethnigrwydd
- Blwyddyn ysgol
- Ffurf cyfeiriad
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Os yw’r person ifanc yn derbyn gofal
- AAA/statws anabledd
- Dewis iaith
- Crefydd
- Nifer o benodau a fynychwyd
- Nifer o sesiynau a fynychwyd
- Nifer o sesiynau a fethwyd/pobl ifanc sy’n methu sesiynau
- Problemau wrth gyflwyno
- Problem bennaf
- Cyfeiriadau o hyn ymlaen

2.9. Ar gyfer y flwyddyn academaidd 2010-11 disgwylir y bydd data cyflawn gan y 22 awdurdod lleol yng Nghymru ar gael ar gyfer pob person ifanc fu’n mynychu gwasanaethau cwnsela mewn ysgol. Caiff dadansoddiad o’r data yma ei gynnwys yn adroddiad Cam Dau.

***Cyfrifiad o gwnselwyr yn yr ysgol***

2.10. Cynhaliwyd cyfrifiad o’r holl gwnselwyr sydd mewn ysgolion drwy ddefnyddio holiaduron ar bapur (gweler atodiad 1). Nod hwn oedd mesur y canfyddiadau ar weithredu’r cwnsela mewn ysgol, gan gynnwys agweddau tuag at drefniadau rhwydweithio, cydlynu, darpariaeth hyfforddiant a CPD. Cynhaliwyd yr arolwg wyneb yn wyneb mewn cyfarfod o’r holl gwnselwyr fu’n cymryd rhan yn strategaeth gwnsela ysgolion Cymru fis Medi 2010. Cynhaliwyd peilot o’r offeryn ymysg staff oedd yn gweithio o fewn BACP nad oeddent yn gysylltiedig â’r gwerthusiad, ond oedd â gwybodaeth o gwnsela.

*Cyfrifiad o benaethiaid/athrawon cyswllt ysgolion*

2.11. I gael trosolwg da o sut weithredwyd y strategaeth ar lefel ysgol, cynhaliwyd cyfrifiad ymysg uwch reolwyr ysgolion. Cysylltwyd ag athrawon cyswllt ym mhob ysgol sydd â

chyfrifoldeb dros gwnsela mewn ysgol a gofyn iddynt gymryd rhan mewn cyfweliad 10 munud dros y ffôn gan ddefnyddio protocol strwythuredig (gweler atodiad 2). Mewn achosion ble nad oedd athrawon cyswllt ar gael, cafwyd cyfweliad gyda'r penaethiaid. Defnyddiwyd cyfrifiad ffôn ar gyfer y grŵp yma o randdeiliaid gan fod y sampl yn ddigon bach i gynnal arolwg ymysg y grŵp cyfan. O brofiad rydym yn gwybod bod penaethiaid ysgolion yn annhebygol o ymateb i holiaduron drwy'r post yn bersonol, a'u bod yn fwy tebygol o'u pasio i staff eraill i'w llenwi ar eu rhan. Yn ogystal, gall y raddfa ymateb i holiaduron papur mewn ysgolion fod yn isel, gan arwain i duedd gref o ddiffyg ymateb sydd felly'n cyfyngu ar ddadansoddiad yr is grŵp. Bu cyfnod peilot i'r holiadur ffôn ymysg pedwar o athrawon cyswllt, ac ni chysylltwyd â'r rhain eto i gymryd rhan yn yr arolwg llawn.

*Cyfrifiad o arweinwyr/rheolwyr gwasanaeth mewn awdurdodau lleol*

2.12. Mae arweinwyr a rheolwyr gwasanaeth ar gyfer y gwasanaeth cwnsela mewn awdurdodau lleol yn grŵp o randdeiliaid pwysig, ac nid yw eu barn ar y strategaeth cwnsela ysgol wedi ei gasglu unrhyw le arall yn y gwerthusiad. Felly, dyfeisiwyd holiadur ar bapur i gasglu gwybodaeth ar farn a chanfyddiadau arweinwyr/rheolwyr gwasanaeth mewn awdurdodau lleol, i hwyluso cymhariaeth yn erbyn y grwpiau eraill fu'n cymryd rhan yn yr arolwg (gweler atodiad 3). Cafodd yr holiadur hwn ei gynnal wyneb yn wyneb mewn cyfarfod o arweinwyr/rheolwyr gwasanaeth mewn awdurdodau lleol fis Tachwedd 2010. Gyrrwyd fersiynau electronig o'r holiadur i'r rheiny nad oedd yn mynychu'r cyfarfod. Cafwyd peilot o'r cyfrifiad hwn ymysg dau arweinydd awdurdod lleol; a chafodd eu hymatebion eu cynnwys yn y sampl gan na wnaed unrhyw newidiadau i'r holiadur yn dilyn y cyfnod peilot.

## 3 Canfyddiadau

Mae'r adran hon yn disgrifio canlyniadau'r pum elfen o gasglu data, pob un yn ei isadran ei hun. Caiff y canfyddiadau allweddol eu hamlygu mewn bocs ar gychwyn pob isadran i wneud yr wybodaeth yma'n hawdd i'w ganfod. I ddilyn wedyn mae trafodaeth draethiadol o'r canfyddiadau gyda thablau a ffigurau perthnasol yn ategol. Mae crynodeb fer ar ddiwedd pob isadran.

**Ymchwil Ddesg**

**Ymchwil Ddesg: Canfyddiadau Allweddol**

- Yn gyffredinol, mae ysgolion wedi bod yn frwdfrydig ac yn gydweithredol wrth weithredu a sefydlu gwasanaethau.
- Nodwyd rhai anawsterau mewn perthynas â'r nifer o gwnselwyr Cymraeg eu hiaith sydd ar gael, sydd o bosib yn amlygu anghenion hyfforddi.
- Mae enghreifftiau o arfer da wrth ddarparu gwasanaeth y tu allan i oriau ysgol ac yn ystod gwyliau ysgol a hefyd trafnidiaeth ble bo'n addas.
- Mae diffyg cysondeb ar draws Awdurdodau Lleol yn y dull o fonitro canlyniadau, sy'n golygu nad oes data canlyniadau unffurf ar gael yn gyffredinol.
- Mae'n ymddangos y caiff hunangyfeiriad ei annog gan y mwyafrif o Awdurdodau Lleol.
- Mae'n ddisgwyliad bod pob cwnselydd wedi cofrestru gyda chorff proffesiynol fel BACP.
- Caiff hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ei annog gan bob Awdurdod Lleol.
- Mae rhywfaint o amrywioldeb yn y modelau cyflenwi gwasanaeth ar draws yr Awdurdodau Lleol, ond mae dau fodel arbennig yn dod i'r amlwg: *Model darpariaeth awdurdod lleol wedi'i ganoli/yn fewnol a Model rheoli yn unig*.

3.1. O ganlyniad i adolygu a dadansoddi llythyrau grant, adroddiadau blynyddol, cynigion gwariant a chofnodion cyfarfodydd mewn perthynas â'r strategaeth cwnsela mewn ysgolion ar draws y 22 awdurdod lleol (ALl)[15] yng Nghymru, nodwyd y themâu canlynol[16].

[15] Mae pob awdurdod lleol wedi cael ei rifoli i sicrhau eu bod yn anhysbys drwy gydol yr adroddiad.
[16] Darparwyd y dogfennau gofynnol gan y Cydlynydd ar gyfer Cwnsela mewn Ysgolion (Sylvia Jones). Darparwyd dogfennau gan bob un o'r 22 awdurdod lleol.

1 Problemau wrth weithredu'r strategaeth
2 Enghreifftiau o arfer da
3 Modelau o ddarparu gwasanaeth

3.2. Yn gyffredinol, bu'r broses o osod a gweithredu'r gwasanaethau'n llyfn ac fe'i cyflawnwyd mewn cyfnod byrrach ble roedd gwasanaethau eisoes yn bodoli ar ryw ffurf neu'i gilydd. Roedd awdurdodau lleol (ALlau) oedd yn sefydlu gwasanaeth o'r newydd, mewn rhai achosion wedi profi oedi ac anawsterau wrth weithredu, o achos y prosesau comisiynu a chaffael. Yn gyffredinol, bu'r ysgolion yn frwdfrydig a chydweithredol wrth weithredu a sefydlu'r gwasanaethau, ac ychydig iawn o broblemau a gofnodwyd. Cafwyd rhai anawsterau oherwydd y nifer o gwnselwyr Cymraeg eu hiaith oedd ar gael, a nodwyd hyn, sydd hwyrach yn amlygu anghenion hyfforddi. Er, ar hyn o bryd, mae 21 o'r 128 o gwnselwyr mewn ysgolion yn siarad Cymraeg. Bu hefyd anawsterau gyda gweithio rhyngasiantaethol a gweithio ar y cyd mewn rhai o'r ardaloedd gwledig o achos y pellter yr oedd rhaid teithio, ond ar y cyfan, mae'r rhain wedi eu datrys.

3.3. Her arall fu datblygu gwasanaethau sy'n gynhwysol a hefyd yn sensitif i anghenion grwpiau amrywiol. Mae cynnig gwasanaethau i bobl ifanc mewn unedau cyfeirio disgyblion, ysgolion arbennig, a'r rheiny sy'n derbyn eu haddysg y tu allan i'r ysgol wedi codi nifer o faterion ynglŷn â hygyrchedd. Yn debyg, mae wedi bod yn bwysig darparu gwasanaethau sy'n sensitif i ddiwylliant pobl ifanc sy'n lesbiaidd, hoyw, deurywiol, anabl a/neu o grwpiau lleiafrif ethnig. Gellir clustnodi enghreifftiau o arfer da. Mae Awdurdod Lleol 9 yn cynnig mynediad estynedig i ysgolion arbennig, Unedau Cyfeirio Disgyblion, y rheiny a addysgir y tu allan i'r ysgol, colegau Addysg Bellach, lleoliadau canol y ddinas ac yn y gymuned. Mae Awdurdod Lleol 21 yn cynnig cwnsela i ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig, gan gynnwys i bobl ifanc gydag ymddygiad heriol ac anawsterau emosiynol. Mae'r gwasanaeth ar gael i bobl ifanc sy'n agored i niwed hyd at 25 mlwydd oed ac i'r rheiny sy'n gadael gofal. Mae enghreifftiau eraill o arfer da wrth ddarparu gwasanaeth allan o oriau ac yn ystod gwyliau ysgol, a hefyd gwasanaeth trafnidiaeth lle bo'n addas.

3.4. Nododd yr ymchwil ddesg bod amrywiad arwyddocaol yn y dull o fonitro canlyniadau ar draws ALlau gwahanol, sy'n golygu nad oes data canlyniadau unffurf ar gael yn gyffredinol. Ceir adroddiad manylach ar hyn ar dudalennau 29-34. Gwnaeth un ALl adrodd anawsterau wrth bennu offer mesur sy'n asesu effeithiau cwnsela ar allu pobl

ifanc i astudio a dysgu. Fodd bynnag mae'r mesurau YP-CORE ac SDQ Goodman wedi cael defnydd eang.

3.5. Mae ALlau wedi ceisio dod o hyd i gydbwysedd rhwng hunan gyfeiriad a chyfeiriad gan rywun arall. Ymddengys bod y mwyafrif o ALlau yn annog hunan gyfeiriad.

3.6. Mae rhai ALlau wedi mynegi pryderon ynglŷn â strwythurau tâl a chadw cwnselwyr. Mae'n eglur bod ALlau yn disgwyl i bob cwnselydd fod wedi cofrestru gyda chorff proffesiynol megis BACP, a bod ganddynt y cymwysterau a'r profiad addas ar gyfer cwnsela ac i weithio gyda phobl ifanc. Hyrwyddir hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) gan bob ALl ac mae ALl 3 ac ALl 16 yn gweithio mewn partneriaeth i ariannu diplomâu cwnsela a achredir gan BACP er mwyn sicrhau gweithlu gyda'r cymwysterau addas. Mae pob ALl yn cyfeirio at oruchwyliaeth barhaus i gwnselwyr, gydag ychydig amrywiad yn y modd caiff hwn ei weithredu. Ni chaiff yr holl oruchwyliaeth ei gyflawni gan oruchwylwyr cwnsela; mewn rhai achosion darperir goruchwyliaeth gan seicolegwyr addysg, gan Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), neu ffurfiau eraill o drefniadau goruchwyliaeth. Ar draws yr ALlau mae ystod o ddarpariaethau cwnsela wedi'u sefydlu, megis therapi unigol, therapi mewn grŵp a chwnsela ar-lein drwy sefydliadau fel Kooth.com[17]. Mae'n ymddangos bod hyn yn cynrychioli ffyrdd hyblyg o weithio sydd wedi'u cynllunio'n ofalus.

3.7. Yn ogystal â sicrhau bod gwasanaeth cwnsela ar gael mewn ysgolion uwchradd ar draws Cymru, nod allweddol y Strategaeth yw cynnig gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion cynradd i ddisgyblion ym mlwyddyn 6 ac yn ystod y cyfnod o drawsnewid cyn cychwyn yn yr ysgol uwchradd. Felly mae'r Strategaeth yn cefnogi pedwar prosiect peilot mewn ysgolion Cynradd yn ALlau 14, 15, 20 a 21. Mae pob un o'r prosiectau peilot wedi dewis dull gwahanol o gyflenwi gwasanaeth, yn seiliedig ar yr angen a glustnodwyd a'r adnoddau sydd ar gael, gan gynnwys staff:

- Mae prosiect peilot 1 wedi darparu gwaith gyda phlant ysgol Gynradd drwy sefydliad cenedlaethol Place2Be. Mae hwn yn cynnwys system hunan gyfeirio (Place2Talk); cwnsela un i un; gwaith therapiwtig mewn grŵp; gwaith mewn partneriaeth gyda rhieni a gwasanaeth ymgynghori i staff yr ysgol (Place2Think).
- Mae prosiect peilot 2 wedi sefydlu ymyriadau o fewn cyd-destun yr ysgol

[17] https://www.kooth.com/index.php

gynradd sydd wedi arwain i amryw o agweddau cadarnhaol. Yn gyntaf, mae hyfforddiant a chefnogaeth i staff yr ysgol a rhieni wedi cael ei weithredu. Yn ail, mae gwaith un i un a gwaith grŵp gyda'r plant yn parhau ac yn cynnwys dulliau therapi ffilial a chwarae, arsylwi ac asesu plant, ac amser mewn cylch mewn dosbarthiadau llawn.

- Ym mhrosiect peilot 3, mae'r peilot cynradd yn darparu therapi chwarae, therapi celf, ac adrodd straeon ar sail un i un ac mewn gwaith grŵp i'r plant a glustnodwyd. Yn unol ag arfer da mewn cwnsela plant ifanc, cynigir cyfleoedd i weithio gyda rhieni a chefnogaeth i athrawon. Mae hunan gyfeiriad ar gael i blant gael cyrchu cwnsela.

- Ym mhrosiect peilot 4 bu'r cwnselwyr oedd yn gweithio mewn ysgolion cynradd yn cwrdd â rhieni/gofalwyr a staff yr ysgol yn y lle cyntaf cyn cychwyn ar y broses therapiwtig gyda'r plentyn. Bwriad hyn yw calonogi a hysbysu'r rhieni a'r athrawon ar natur y broses therapiwtig. Mae hefyd yn rhoi cyfle i gwrdd â'r cwnselydd i drafod natur y cyfeiriad, ynghyd ag unrhyw faterion perthnasol sy'n codi yn y cartref neu yn yr ysgol. Yn ogystal, mae cynllun peilot llwyddiannus wedi ei gyflwyno mewn ysgolion cynradd ar ddull cerddoriaeth therapiwtig i bobl ifanc sy'n agored i niwed.

3.8. Mae ychydig o amrywioldeb yn y modelau cyflenwi gwasanaethau ar draws yr ALlau (gweler tabl 1), ond mae dau fodel arbennig yn dod i'r amlwg. Mewn gwasanaethau ble defnyddir y Model darpariaeth awdurdod lleol wedi'i ganoli/yn fewnol, mae'r gwasanaeth cwnsela yn cyflogi a darparu rheolaeth a goruchwyliaeth i'r cwnselwyr mewn ysgolion, ac maent hwy wedyn yn gweithio fel rhan integrol o dîm staff bob ysgol. Mewn cyferbyniad, yn y Model rheolaeth yn unig, mae ysgolion yn cyflogi eu cwnselydd eu hunain ond cefnogir hyn gan wasanaeth rheoli sy'n cynghori a darparu cefnogaeth ymgynghorol. Mae'r gwasanaeth rheoli (sydd o bosib wedi'i leoli o fewn yr ALl neu o fewn asiantaeth arall, ond nid yn yr ysgol) yn parhau i gynnig cefnogaeth arbenigol gan gynnwys goruchwyliaeth, DPP, monitro, ayyb. Gall ysgolion unigol gyflogi cwnselwyr ac mae gan y gwasanaeth rheoli gyflogwr gwahanol.

**Tabl 1 Gwybodaeth ar fodelau cyflenwi gwasanaeth a ddefnyddir ar draws Cymru**[18]

| Model cyflenwi gwasanaeth | ALlau yn dilyn y model yma |
|---|---|
| Darpariaeth awdurdod lleol peripatetig wedi'i ganoli | 3, 16, 20 |
| Darpariaeth awdurdod lleol wedi'i ganoli/yn fewnol | 2, 7, 8, 10, 11,15,19, 21, 22 |
| Darpariaeth fewnol yn yr ysgol gan asiantaeth allanol | 3, 16 |
| Model clwstwr | 7, 11 |
| Model rheolaeth yn unig | 1, 5, 6, 9, 12, 13, 14, 17,18 |

*Crynodeb o'r Ymchwil Ddesg*

3.9. Mae ymchwil ddesg yn awgrymu bod amrywiad ym mha mor gyflym mae gwasanaethau wedi'u sefydlu, yn dibynnu a oedd gan yr ysgol wasanaeth cwnsela o'r blaen. Ar y cyfan, mae ysgolion wedi ymateb yn gadarnhaol a chyda brwdfrydedd i'r strategaeth gwnsela. Er bod rhai anawsterau'n lleol, ar y cyfan mae'r ALlau wedi mabwysiadu ymagwedd ragweithiol i ddatrys problemau. Bu enghreifftiau eang o arfer da gan gynnwys dulliau mentrus o ddarparu gwasanaethau i grwpiau o bobl ifanc amrywiol eu diwylliant a'r rheiny sy'n anodd eu cyrraedd. Er bod y mwyafrif o awdurdodau lleol wedi datblygu systemau i fonitro'r canlyniadau mewn gwasanaethau cwnsela ysgolion, mae anghysondebau wrth gasglu data canlyniadau'n rheolaidd sy'n rhwystro dadansoddiad manwl ar raddfa eang o effeithiolrwydd ymyriadau mewn ysgolion. Sefydlwyd meini prawf eglur ar gyflogi cwnselwyr a sicrhau bod eu gwaith o safon uchel. Mae darpariaeth hyfforddiant o safon uchel hefyd o gymorth er mwyn sicrhau bod gweithlu cymwys ar gael. Mae'r amrywiaeth eang o ymyriadau sydd ar gael yn awgrymu bod sylw da wedi ei roi i ddarparu gwasanaethau sy'n sensitif i oedran gan sicrhau gall ddisgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd gyrchu'r therapi addas.

---

[18] Mae eglurhad o'r modelau gwasanaeth gwahanol ar gael yn Pattison, S., Rowland, N., Cromarty, K., Richards, K., Jenkins, P., Cooper, M., Polat, F. (2007). Counselling in Schools: A research study into services for children and young people in Wales. [Cwnsela mewn ysgolion: astudiaeth ymchwil i'r gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru]14, Llywodraeth Cynulliad Cymru

## Gwerthuso Data a Chanlyniadau Cleient

**Data a Chanlyniadau Cleient: Canfyddiadau Allweddol**

- Mae 13 awdurdod lleol wedi casglu data canlyniadau yn rheolaidd gan ddefnyddio YP-CORE
- Mae 3 awdurdod lleol wedi casglu data canlyniadau rheolaidd gan ddefnyddio SDQ
- Adroddwyd bod cyfradd ymateb (sef y dangosydd allweddol o ddibynadwyedd a dilysrwydd y gwerthusiad) ar gyfer 2009-10 wedi amrywio o tua 15% i 100%.
- Gwnaeth 12 awdurdod lleol nodi eu bod wedi casglu data gwerthuso gan ddefnyddio'r Ffurflen Werthuso Ôl Gwnsela
- Cyflenwyd dros 6000 pennod o gwnsela dros y pedwar tymor, gyda dros 26,000 o sesiynau cwnsela wedi'u mynychu.
- Mynychwyd 4 sesiwn o gwnsela ar gyfartaledd ar gyfer pob pennod o'i gymharu â 6 sesiwn i bob pennod ar gyfartaledd ar draws y DU.[19]
- Roedd tua chwarter y cyfeiriadau yn hunan gyfeiriad.
- Y pum problem fwyaf cyffredin, mewn trefn ddisgynnol, oedd teulu, dicter, problemau'n berthnasol i ymddygiad, straen a phrofedigaeth; gwelwyd bod problem gyda theulu'n cael ei gyflwyno fwy na dwywaith yn amlach nac unrhyw broblem arall. Mae'n ddarlun tebyg iawn i'r materion sy'n codi mewn gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion eraill ar draws y DU (Cooper, 2009)[20]
- Ar gyfartaledd, roedd y bobl ifanc oedd â data ar gael wedi dangos gwelliant arwyddocaol rhwng y cyfnod cychwyn cwnsela a gorffen cwnsela.
- Y maint effaith ar gyfartaledd ar draws y naw awdurdod lleol oedd 1.1, sy'n awgrymu bod pobl ifanc yn y Strategaeth Cwnsela mewn Ysgolion Cymreig wedi profi gwelliannau mawr i'w lles seicolegol o'r cyfnod cyn cwnsela i'r cyfnod ar ôl cwnsela.
- Fodd bynnag, rhaid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canlyniadau o achos y lefel ymateb isel ymysg llawer o'r ALlau.
- Dywedodd tua 60% o bobl ifanc y byddent yn ystyried cwnsela eto yn y dyfodol ar ôl gadael yr ysgol.

[19] Cooper, M. (2009) Counselling in UK secondary schools: A comprehensive review of audit and evaluation studies Counselling and Psychotherapy Research, 9(3), 137-150.
[20] Cooper, M. (2009) Counselling in UK secondary schools: A comprehensive review of audit and evaluation studies Counselling and Psychotherapy Research, 9(3), 137-150.

*I ba raddau mae data canlyniadau ar gael ar draws awdurdodau lleol*

3.10. Nododd 13 o awdurdodau lleol eu bod wedi casglu data canlyniadau gan ddefnyddio'r YP-CORE: ALlau 1, 2, 3, 6, 7, 9, 10, 11, 12, 13, 14, 16 ac 17. Mae tri awdurdod lleol arall wedi nodi eu bod wedi casglu data gan ddefnyddio'r SDQ: ALlau 19, 20 a 21.

3.11. Mae awdurdodau lleol 15 a 22 wedi nodi nad ydynt wedi casglu data ar gyfer 2009-10 ond eu bod yn ystyried YP-CORE ar gyfer 2010-11; dydy ALl 4 heb gasglu data yn y gorffennol ond mae'n ystyried un ai YP-CORE neu SDQ ar gyfer 2010-11; yn y gorffennol defnyddiodd ALl 8 ei fesur ei hun ond yn awr mae'n ystyried defnyddio YP-CORE. Ni dderbyniwyd unrhyw wybodaeth gan ALlau 5 a 18.

3.12. Mae cyfraddau ymateb (h.y. y canran o gleientiaid sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac y mae pâr o ffurflenni gwerthuso cyn cwnsela ac ôl gwnsela ar gael ar eu cyfer) yn ddangosydd allweddol o ddilysrwydd unrhyw werthusiad o ganlyniadau, ac ar gyfer 2009-10 adroddwyd eu bod yn amrywio o ryw 15% i 100%. Ystyrir bod angen cyfradd ymateb o 70% neu'n uwch i wneud unrhyw ddadansoddiad o werthusiad yn ddilys (gweler Clark et al., 2008)[21].

3.13. Derbyniwyd data canlyniadau YP-CORE defnyddiadwy gan ALlau 1, 2, 7, 9, 12, 13,14 a 17; a derbyniwyd data canlyniadau SDQ defnyddiadwy gan ALl 19. Darparwyd data SDQ gan ALl 21, ond nid oedd mewn ffurf addas i'w ddadansoddi. Er y derbyniwyd copïau caled o ddata YP-CORE gan ALl 3 a 6, yn anffodus, ni fu amser i gynnwys y data yma yn adroddiad Cam 1. Yn debyg, gwnaeth ALl 10 ddarparu data YP-CORE defnyddiadwy ond ni dderbyniwyd hwn mewn amser i'w gynnwys yma. Ar gyfer data 2010-11, bydd pob ardal yn derbyn taflen ddata Excel wedi'i fformatio'n addas ble gallant fewnbynnu'r holl ddata canlyniadau a gwerthuso ôl gwnsela.

3.14. Dangosodd ddeuddeg ardal eu bod wedi bod yn casglu data gan ddefnyddio'r Holiadur Gwerthuso Ôl Gwnsela o'r Pecyn Cymorth ar gyfer y cyfnod pedwar tymor haf 2008-09 hyd haf 2009-10: ALlau 1, 2, 3, 6, 7, 12, 13, 14, 15, 16, 17 a 21. Mae tair ardal arall yn defnyddio fersiynau wedi'i addasu o'r ffurflen hon (ALlau 9, 19 a 20). Ni dderbyniwyd atebion gan yr ardaloedd eraill. Nodwyd bod cyfradd ymateb yn amrywio o 10% i 100%, gyda thua hanner yn adrodd 30% neu'n is. Mae sawl ardal wedi nodi eu bod am ystyried sut i wella'r gyfradd ymateb ar gyfer 2009-10. Derbyniwyd gwybodaeth ansoddol ychwanegol gan ALlau 3 a 16.

[21] Clark, D. M., Fairbairn, C. G., & Wessely, S. (2008). Psychological treatment outcomes in routine NHS services: a commentary on Stiles et al. (2007). Psychological Medicine, 38, 629-634.

*Data Cleient/Pennod ar gyfer haf 2008-09 hyd haf 2009-10*

3.15. Darparwyd cyfanswm o dros 6000 o benodau cwnsela ar draws y pedwar tymor, a mynychwyd dros 26,000 o sesiynau cwnsela. Mae hyn yn rhoi cyfartaledd o 4 sesiwn cwnsela wedi'i fynychu i bob pennod. Gellir cymharu hwn gyda chymedr cyfanredol o 6.35 sesiwn i bob pennod. Mae'r ffigur yma'n deillio o arolwg o 30 astudiaeth archwilio a gwerthuso cwnsela mewn ysgolion ar draws y DU (Cooper 2009)[22].

3.16. Cafodd dros 2000 o sesiynau cwnsela eu methu (8% o'r sesiynau a gynigwyd), sy'n rhoi cyfradd mynychu o 92%. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r gyfradd mynychu cyfartalog o 81%, sy'n deillio o arolwg o 30 astudiaeth archwilio a gwerthuso cwnsela mewn ysgolion ar draws y DU (Cooper, 2009).

3.17. Mewn 86% o achosion, roedd pobl ifanc yn mynychu cwnsela am eu pennod gyntaf. Roedd pobl ifanc yn mynychu am ail bennod mewn 7% o achosion, a thrydedd bennod mewn 2% o achosion, pedwaredd bennod mewn 2% o achosion a phump neu fwy o benodau cwnsela mewn 3% o achosion.

3.18. Rhoddir y manylion demograffig ar gyfer pob pennod cwnsela yn Nhablau 2a i 2i. Cyflenwyd ychydig dros 60% o benodau cwnsela i ferched, gydag ychydig o dan 40% yn cael eu cyflenwi i ddynion. Mae hyn yn gyfran merched i ddynion rhywfaint yn uwch o gymharu â'r gymhareb gyfartalog gyfanredol o 56% merched a 44% dynion, o'r 30 astudiaeth yn y DU (Cooper, 2009). Cyflenwyd 97% o'r penodau cwnsela i bobl ifanc o gefndir ethnig gwyn. Roedd 1% o gefndir hil gymysg, gyda phob ethnigrwydd arall yn cynrychioli ychydig dros 1%. Does dim data cymharol ar gael gan wasanaethau cwnsela mewn ysgolion ar draws y DU, ond caiff hwn ei gymharu yn erbyn demograffig ethnig Cymru gyfan yn Rhan Dau'r adroddiad.

[22] Cooper, M. (2009). Counselling in UK secondary schools: A comprehensive review of audit and evaluation studies Counselling and Psychotherapy Research, 9(3), 137-150.

**Tabl 2a Rhyw ac ethnigrwydd ar gyfer disgyblion sy'n mynychu cwnsela mewn ysgolion o (ac yn cynnwys) haf 2008-9 hyd haf 2009-10**

| **Rhyw** | **Canran**[23] | **Cyfanswm** | **Amrywiad ar draws Awdurdodau Lleol**[24] | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Amrediad** | **Isafswm** | **Uchafswm** |
| Gwryw | 38.6% | 2356 | 20 | 446 | 466 |
| Fenyw | 61.4% | 3745 | 711 | 27 | 738 |
| **Ethnigrwydd** | | | | | |
| Gwyn | 97.1% | 5925 | 1125 | 57 | 1182 |
| Hil gymysg | 1.2% | 70 | 20 | 0 | 20 |
| Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig | 0.4% | 27 | 6 | 0 | 6 |
| Du neu Ddu Brydeinig | 0.4% | 23 | 7 | 0 | 7 |
| Tsieinïaidd neu Tsieinïaidd Prydeinig | 0.1% | 3 | 1 | 0 | 1 |
| Unrhyw gefndir ethnig arall | 0.5% | 30 | 12 | 0 | 12 |
| Anhysbys | 0.4% | 23 | 10 | 0 | 10 |

Ffynhonnell: Darparwyd data o ffurflenni cofnodi cleientiaid a roddwyd i'r tîm gwerthuso gan Lywodraeth Cymru

3.19. Fel mewn gwerthusiadau yn y gorffennol (Cooper, 2009), y bobl ifanc oedd yn defnyddio'r gwasanaeth cwnsela fwyaf aml oedd blynyddoedd canol yr ysgol (blynyddoedd 9, 10 ac 11), gyda chynrychiolaeth is o ddisgyblion hŷn ac iau.

[23] Mae'r ffigurau wedi eu talgrynnu i un pwynt degol felly ni fyddant yn gwneud cyfanswm o 100 bob tro
[24] Mae amrywiad yn cyfeirio at y gwahaniaethau ar draws yr awdurdodau lleol yn nhermau'r nifer o gleientiaid sy'n mynychu cwnsela mewn ysgolion; lleiafswm = y nifer isaf o gleientiaid o fewn awdurdod unigol, uchafswm = y nifer uchaf o gleientiaid, amrediad = y gwahaniaeth rhwng y lleiafswm a'r uchafswm

**Tabl 2b Niferoedd o ddisgyblion ym mhob blwyddyn ysgol fu'n mynychu cwnsela mewn ysgol o (ac yn cynnwys) haf 2008-09 hyd haf 2009-10**

| Blwyddyn ysgol | Canran[25] | Cyfanswm | Amrywiad ar draws Awdurdodau Lleol[26] | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Amrediad | Isafswm | Uchafswm |
| Blwyddyn 7 | 12.7% | 772 | 156 | 2 | 158 |
| Blwyddyn 8 | 18% | 1099 | 207 | 3 | 210 |
| Blwyddyn 9 | 22% | 1344 | 225 | 11 | 236 |
| Blwyddyn 10 | 21.1% | 1288 | 240 | 10 | 250 |
| Blwyddyn 11 | 15.5% | 946 | 207 | 2 | 209 |
| Blwyddyn 12 | 4.9% | 298 | 52 | 0 | 52 |
| Blwyddyn 13 | 4.1% | 247 | 77 | 0 | 77 |
| Anhysbys | 3.2% | 197 | 34 | 0 | 34 |

Ffynhonnell: Darparwyd data o ffurflenni cofnodi cleientiaid a roddwyd i'r tîm gwerthuso gan Lywodraeth Cymru

3.20. Roedd bron i chwarter y cyfeiriadau yn hunan gyfeiriadau, sydd rywfaint yn uwch nag a welwyd yn y gorffennol (Cooper, 2009). Fodd bynnag, fel mewn gwerthusiadau yn y gorffennol, staff yr ysgol oedd yn cyfeirio fwyaf (53% yn y gwerthusiad cyfredol), gyda dim ond cyfran fechan wedi'u cyfeirio gan rieni neu ofalwyr (7.6%).

[25] Mae'r ffigurau wedi eu talgrynnu i un pwynt degol felly ni fyddant yn gwneud cyfanswm o 100 bob tro
[26] Mae amrywiad yn cyfeirio at y gwahaniaethau ar draws yr awdurdodau lleol yn nhermau'r nifer o gleientiaid sy'n mynychu cwnsela mewn ysgolion; lleiafswm = y nifer isaf o gleientiaid o fewn awdurdod unigol, uchafswm = y nifer uchaf o gleientiaid, amrediad = y gwahaniaeth rhwng y lleiafswm a'r uchafswm

**Tabl 2c Ffurf cyfeiriad ar gyfer disgyblion fu'n mynychu cwnsela mewn ysgol o (ac yn cynnwys) haf 2008-09 hyd haf 2009-10**

| Ffurf cyfeiriad | Canran[27] | Cyfanswm | Amrywiad ar draws Awdurdodau Lleol[28] | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Amrediad | Isafswm | Uchafswm |
| Hunan | 24.9% | 1520 | 258 | 3 | 261 |
| Rhieni | 7.6% | 461 | 154 | 0 | 154 |
| Staff yr ysgol / addysg arall | 53.3% | 3252 | 656 | 24 | 680 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 0.8% | 48 | 29 | 0 | 29 |
| Iechyd - Meddyg Teulu, ysbyty, nyrs yr ysgol ayyb | 2.9% | 179 | 46 | 0 | 46 |
| Arall | 2.6% | 158 | 70 | 0 | 70 |
| Anhysbys | 7.9% | 483 | 384 | 0 | 384 |

Ffynhonnell: Darparwyd data o ffurflenni cofnodi cleientiaid a roddwyd i'r tîm gwerthuso gan Lywodraeth Cymru

3.21. Roedd gwybodaeth ar gyfeiriadedd rhywiol ar goll mewn 40% o benodau cwnsela. O'r rheini gyda gwybodaeth gyflawn, dim ond ychydig dros hanner y bobl ifanc a ddynodwyd fel heterorywiol a thua 2.5% o bobl ifanc wedi'u dynodi un ai fel deurywiol neu hoyw / lesbiaidd.

**Tabl 2ch Cyfeiriadedd rhywiol y disgyblion fu'n mynychu'r cwnsela mewn ysgol o (ac yn cynnwys) haf 2008-09 hyd haf 2009-10**

| Tueddiadau Rhywiol | Canran[29] | Cyfanswm | Amrywiad ar draws Awdurdodau Lleol[30] | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Amrediad | Isafswm | Uchafswm |
| Deurywiol | 1.4% | 87 | 24 | 0 | 24 |
| Hoyw / Lesbiaidd | 1.4% | 88 | 24 | 0 | 24 |
| Heterorywiol / syth | 55.4% | 3379 | 837 | 9 | 846 |
| Anhysbys | 41.8% | 2547 | 364 | 1 | 365 |

Ffynhonnell: Darparwyd data o ffurflenni cofnodi cleientiaid a roddwyd i'r tîm gwerthuso gan Lywodraeth Cymru

[27] Mae'r ffigurau wedi eu talgrynnu i un pwynt degol felly ni fyddant yn gwneud cyfanswm o 100 bob tro
[28] Mae amrywiad yn cyfeirio at y gwahaniaethau ar draws yr awdurdodau lleol yn nhermau'r nifer o gleientiaid sy'n mynychu cwnsela mewn ysgolion; lleiafswm = y nifer isaf o gleientiaid o fewn awdurdod unigol, uchafswm = y nifer uchaf o gleientiaid, amrediad = y gwahaniaeth rhwng y lleiafswm a'r uchafswm
[29] Mae'r ffigurau wedi eu talgrynnu i un pwynt degol felly ni fyddant yn gwneud cyfanswm o 100 bob tro
[30] Mae amrywiad yn cyfeirio at y gwahaniaethau ar draws yr awdurdodau lleol yn nhermau'r nifer o gleientiaid sy'n mynychu cwnsela mewn ysgolion; lleiafswm = y nifer isaf o gleientiaid o fewn awdurdod unigol, uchafswm = y nifer uchaf o gleientiaid, amrediad = y gwahaniaeth rhwng y lleiafswm a'r uchafswm

3.22. Cyflenwyd ychydig o dan 5% o benodau therapi i bobl ifanc oedd yn derbyn gofal gan awdurdod lleol

**Tabl 2d Niferoedd y disgyblion oedd yn derbyn gofal a fu'n mynychu'r cwnsela mewn ysgol o (ac yn cynnwys) haf 2008-09 hyd haf 2009-10**

| | **Canran** | **Cyfanswm** | **Amrywiad ar draws Awdurdodau Lleol[31]** | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Derbyn gofal gan awdurdod** | | | **Amrediad** | **Isafswm** | **Uchafswm** |
| | 4.9% | 296 | 76 | 0 | 76 |

Ffynhonnell: Darparwyd data o ffurflenni cofnodi cleientiaid a roddwyd i'r tîm gwerthuso gan Lywodraeth Cymru

3.23. Dewis iaith dros 90% o'r bobl ifanc oedd Saesneg, gyda 6.3% o'r penodau'n cael eu cyflenwi i bobl ifanc oedd yn dewis Cymraeg.

**Tabl 2dd Dewis iaith y disgyblion fu'n mynychu'r cwnsela mewn ysgol o (ac yn cynnwys) haf 2008-9 hyd haf 2009-10**

| **Dewis iaith** | **Canran[32]** | **Cyfanswm** | **Amrywiad ar draws Awdurdodau Lleol[33]** | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Amrediad** | **Isafswm** | **Uchafswm** |
| Saesneg | 92.8% | 5654 | 1127 | 54 | 1181 |
| Cymraeg | 6.3% | 385 | 294 | 0 | 294 |
| Arall | 0.2% | 12 | 5 | 0 | 5 |
| Anhysbys | 0.7% | 40 | 15 | 0 | 15 |

Ffynhonnell: Darparwyd data o ffurflenni cofnodi cleientiaid a roddwyd i'r tîm gwerthuso gan Lywodraeth Cymru

3.24. Roedd gwybodaeth am grefydd neu gred ar gyfer bron i hanner y bobl yn anhysbys. O'r gweddill, dynodwyd bod dros 30% heb grefydd neu gred, gydag 20% wedi'u dynodi fel Cristnogol.

[31] Mae amrywiad yn cyfeirio at y gwahaniaethau ar draws yr awdurdodau lleol yn nhermau'r nifer o gleientiaid sy'n mynychu cwnsela mewn ysgolion; lleiafswm = y nifer isaf o gleientiaid o fewn awdurdod unigol, uchafswm = y nifer uchaf o gleientiaid, amrediad = y gwahaniaeth rhwng y lleiafswm a'r uchafswm
[32] Mae'r ffigurau wedi eu talgrynnu i un pwynt degol felly ni fyddant yn gwneud cyfanswm o 100 bob tro
[33] Mae amrywiad yn cyfeirio at y gwahaniaethau ar draws yr awdurdodau lleol yn nhermau'r nifer o gleientiaid sy'n mynychu cwnsela mewn ysgolion; lleiafswm = y nifer isaf o gleientiaid o fewn awdurdod unigol, uchafswm = y nifer uchaf o gleientiaid, amrediad = y gwahaniaeth rhwng y lleiafswm a'r uchafswm

**Tabl 2e Crefydd/cred y disgyblion fu'n mynychu cwnsela mewn ysgol o (ac yn cynnwys) haf 2008-09 hyd haf 2009-10**

| Crefydd/cred | Canran[34] | Cyfanswm | Amrywiad ar draws Awdurdodau Lleol[35] | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Amrediad | Isafswm | Uchafswm |
| Dim | 33.8% | 2060 | 538 | 0 | 538 |
| Baha'i | 0.1% | 2 | 2 | 0 | 2 |
| Bwdhaidd | 0.1% | 6 | 2 | 0 | 2 |
| Cristnogol | 20.3% | 1236 | 420 | 1 | 421 |
| Hindwaidd | 0.1% | 1 | 1 | 0 | 1 |
| Jain | 0.1% | 1 | 1 | 0 | 1 |
| Iddewig | 0.1% | 3 | 3 | 0 | 3 |
| Mwslimaidd | 0.3% | 15 | 5 | 0 | 5 |
| Sikh | 0.0% | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Arall | 2.6% | 161 | 75 | 0 | 75 |
| Anhysbys | 42.9% | 2616 | 386 | 0 | 386 |

Ffynhonnell: Darparwyd data o ffurflenni cofnodi cleientiaid a roddwyd i'r tîm gwerthuso gan Lywodraeth Cymru

3.25. Mewn 91.7% o achosion, ni chafodd pobl ifanc eu cyfeirio ymlaen i wasanaethau eraill, neu roedd yn anhysbys os cawsant gyfeiriad ymlaen neu ddim. Cyfeiriwyd 3% o bobl ifanc ymlaen i arbenigwr gwasanaethau CAMHS, 2% i wasanaethau amddiffyn plant, a chafodd 3% eu cyfeirio ymlaen i wasanaethau eraill.

[34] Mae'r ffigurau wedi eu talgrynnu i un pwynt degol felly ni fyddant yn gwneud cyfanswm o 100 bob tro
[35] Mae amrywiad yn cyfeirio at y gwahaniaethau ar draws yr awdurdodau lleol yn nhermau'r nifer o gleientiaid sy'n mynychu cwnsela mewn ysgolion; lleiafswm = y nifer isaf o gleientiaid o fewn awdurdod unigol, uchafswm = y nifer uchaf o gleientiaid, amrediad = y gwahaniaeth rhwng y lleiafswm a'r uchafswm

**Tabl 2f Cyfeiriad ymlaen ymysg disgyblion fu'n mynychu cwnsela mewn ysgol o (a chan gynnwys) haf 2009-10**

| Cyfeiriad ymlaen | Canran[36] | Cyfanswm | Amrywiad ar draws Awdurdodau Lleol[37] | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Amrediad | Isafswm | Uchafswm |
| Arbenigwr CAMHS | 3.1% | 190 | 54 | 0 | 54 |
| Amddiffyn Plant | 2.1% | 129 | 25 | 0 | 25 |
| Arall | 3.1% | 184 | 43 | 0 | 43 |
| Dim | 53.9% | 3289 | 1106 | 0 | 1106 |
| Anhysbys | 37.9% | 2309 | 138 | 0 | 138 |

Ffynhonnell: Darparwyd data o ffurflenni cofnodi cleientiaid a roddwyd i'r tîm gwerthuso gan Lywodraeth Cymru

3.26. Roedd gan tua 15% o ddisgyblion oedd yn mynychu'r cwnsela mewn ysgol Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) neu anabledd.

**Tabl 2ff Disgyblion AAA/anabl fu'n mynychu cwnsela mewn ysgol o (ac yn cynnwys) haf 2008-09 hyd haf 2009-10**

| AAA/anabledd | Canran[38] | Cyfanswm | Amrywiad ar draws Awdurdodau Lleol[39] | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Amrediad | Isafswm | Uchafswm |
| Gwybyddiaeth a Dysg | 5.3% | 324 | 95 | 0 | 95 |
| Datblygiad Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol | 5.5% | 333 | 79 | 0 | 79 |
| Cyfathrebu a Rhyngweithio | 1.6% | 95 | 38 | 0 | 38 |
| Synhwyraidd a / neu Gorfforol | 1.1% | 66 | 15 | 0 | 15 |
| Anhysbys | 3.1% | 189 | 141 | 0 | 141 |

Ffynhonnell: Darparwyd data o ffurflenni cofnodi cleientiaid a roddwyd i'r tîm gwerthuso gan Lywodraeth Cymru

36 Mae'r ffigurau wedi eu talgrynnu i un pwynt degol felly ni fyddant yn gwneud cyfanswm o 100 bob tro Mae canran yn cyfeirio at y gyfran o'r holl gleientiaid sydd ag AAA/anabledd.

37 Mae amrywiad yn cyfeirio at y gwahaniaethau ar draws yr awdurdodau lleol yn nhermau'r nifer o gleientiaid sy'n mynychu cwnsela mewn ysgolion; lleiafswm = y nifer isaf o gleientiaid o fewn awdurdod unigol, uchafswm = y nifer uchaf o gleientiaid, amrediad = y gwahaniaeth rhwng y lleiafswm a'r uchafswm

38 Cyflwynir y canran o gleientiaid sydd ag AAA/anabledd ac sy'n mynychu cwnsela mewn ysgolion fel cyfran o'r boblogaeth gyfan o gleientiaid sy'n mynychu cwnsela mewn ysgolion.

39 Mae amrywiad yn cyfeirio at y gwahaniaethau ar draws yr awdurdodau lleol yn nhermau'r nifer o gleientiaid sy'n mynychu cwnsela mewn ysgolion; lleiafswm = y nifer isaf o gleientiaid o fewn awdurdod unigol, uchafswm = y nifer uchaf o gleientiaid, amrediad = y gwahaniaeth rhwng y lleiafswm a'r uchafswm

*Materion Cleientiaid*

3.27. Fel mewn ymchwil yn y gorffennol (Cooper, 2009), yn y sampl presennol, roedd y problemau wrth gyflwyno (h.y. y rhesymau dros gyfeiriad y bobl ifanc) yn cydberthyn yn agos gyda'r problemau a drafodwyd mewn gwirionedd (problemau pennaf). Am y rheswm hwn, dim ond problemau wrth gyflwyno a ddadansoddwyd yn y cam yma. Bydd dadansoddiad llawn, fydd yn cymharu problemau wrth gyflwyno yn erbyn problem bennaf, yn cael ei gyflwyno yn adroddiad Cam Dau.

3.28. Dangosir problemau wrth gyflwyno mewn trefn ddisgynnol yn Nhabl 3, gyda'r nifer a'r canran o benodau cwnsela ble cyflwynwyd y broblem. (Noder: gan ei bod yn bosibl y cofnodwyd bod bobl ifanc wedi cyflwyno hyd at dair problem, mae'r canran cyfanswm yn uwch na 100).Cyflwynir hefyd y safleoedd cyfartalog cenedlaethol gan Cooper (2009) fel cymhariaeth.

3.29. Y pum problem a gyflwynwyd yn fwyaf aml, mewn trefn ddisgynnol, oedd teulu, dicter, problemau'n berthnasol i ymddygiad, straen a phrofedigaeth; gyda phroblemau gyda theulu'n cael ei gyflwyno fwy na dwywaith mor aml nac unrhyw broblem arall. Mae hyn yn ddarlun tebyg iawn i'r problemau a gyflwynir mewn gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion ar draws y DU (Cooper 2009), gydag un eithriad, bod problemau academaidd yn cael eu cyflwyno'n llai aml yn y set ddata Cymreig. Mae problemau wrth gyflwyno'n arwydd o bryderon allweddol defnyddwyr gwasanaeth ac maent yn wahanol i ddiagnosis clinigol o broblemau iechyd meddwl.

## Tabl 3 Problemau wrth gyflwyno

| Problem wrth gyflwyno | Rhif | Canran[40] | Safle'r Sampl Cymreig | Safle Cyfartalog y DU[41] |
|---|---|---|---|---|
| Teulu | 2368 | 56.9% | 1 | 1 |
| Dicter | 1015 | 24.4% | 2 | 2 |
| Perthnasol i ymddygiad | 734 | 17.6% | 3 | 4 |
| Straen | 611 | 14.7% | 4 | 10 |
| Profedigaeth | 608 | 14.6% | 5 | 8 |
| Bwlio | 604 | 14.5% | 6 | 9 |
| Hunan werth | 525 | 12.6% | 7 | 6 (hunan / hunan barch) |
| Iselder | 465 | 11.2% | 8 | 7 |
| Perthnasau heblaw am deulu neu athrawon | 385 | 9.2% | 9 | 5 (cyffredinol) |
| Perthynas gydag athrawon | 292 | 7% | 10 | 5 (cyffredinol) |
| Hunan-niwed | 287 | 6.9% | 11 | 14 |
| Camdriniaeth (gan gynnwys rhywiol) | 235 | 5.6% | 12 | 13 |
| Academaidd | 212 | 5.1% | 13 | 3 (Ysgol) |
| Camdriniaeth gartref | 130 | 3.1% | 14 | amherthnasol |
| Anhwylder bwyta | 118 | 2.8% | 15 | amherthnasol |
| Camddefnyddio sylweddau | 96 | 2.3% | 16 | amherthnasol |
| Meddyliau am hunanladdiad | 83 | 1% | 17 | amherthnasol |
| Rhywiol (gan gynnwys cyfeiriadedd) | 72 | 1.7% | 18 | amherthnasol |
| Pryderon ariannol / tlodi | 44 | 1% | 19 | amherthnasol |
| Arall | 388 | 9.3% | 20 | amherthnasol |
| Anhysbys | 49 | 1.2% | 21 | amherthnasol |

Ffynhonnell: Darparwyd data o ffurflenni cofnodi cleientiaid, haf 2008-09 hyd haf 2009-10, a gyflawnwyd gan gwnselwyr mewn ysgolion ac a roddwyd i'r tîm gwerthuso gan Lywodraeth Cymru

*Data Canlyniadau ar gyfer 2009-10*

3.30. Roedd data canlyniadau ar gael ar gyfer naw ALI, wyth gyda'r YP-CORE ac un yn


[40] Noder: gan y cofnodwyd bod pobl ifanc wedi cyflwyno hyd at dair problem, mae cyfanswm y canran yn uwch na 100

[41] Safle Cyfartalog y DU gan Cooper (2009)

defnyddio'r SDQ. Roedd cyfradd ymateb ymysg y cyfranogwyr a welwyd o hydref 2009-10 hyd haf 2009-10 yn amrywio o 14% i 91%, gyda chyfartaledd o 48%.

3.31. Ar gyfartaledd, roedd y bobl ifanc yn y naw awdurdod lleol ble roedd data ar gael, wedi dangos gwelliannau sylweddol o gychwyn y cyfnod cwnsela hyd ddiwedd y cyfnod cwnsela. Mae ffigur 1 yn dangos sgorau cyfartalog cyn ac ar ôl cwnsela ar draws Awdurdodau Lleol.

**Ffigur 1 Newid i'r sgôr cyn cwnsela ac ôl gwnsela ar draws yr Awdurdodau Lleol yng Nghymru wnaeth ddychwelyd data cadarn**




Ffynhonnell: Darparwyd data YP-CORE ac SDQ gan awdurdodau lleol

3.32. Mae'r 'maint effaith' (d) yn mesur maint y newid, gyda maint effaith o 0.2, 0.5 a 0.8 yn cael eu hystyried yn newidiadau bach, canolig a mawr yn ôl eu trefn.[42] Y maint effaith (ME) cyfartalog ar draws y naw awdurdod lleol oedd 1.1. Gellir cymharu maint gwelliant y sampl presennol yn erbyn normau cenedlaethol. Canfu adolygiad Cooper (2009) o gwnsela mewn ysgolion bod maint effaith cyfartalog o 0.81 ar draws y DU. Awgryma hyn bod y bobl ifanc yn y Strategaeth Cwnsela mewn Ysgolion Cymreig yn dangos, ar gyfartaledd, lefelau uchel o welliant.

[42] Caiff maint effaith ei gyfrifo drwy rannu'r gwahaniaeth cymedr cyn ac ar ôl ymyrraeth ar y YP- CORE a'r SDQ gyda'r gwyriad safonol cyfun (gwasgariad y sgorau) ar draws y sampl.

**Tabl 4 Maint effaith ar draws awdurdodau lleol gan ddefnyddio mesurau canlyniadau safonedig**

| Mesur canlyniad | Awdurdod Lleol | Cyfanswm cleientiaid | Sampl | Cyfradd ymateb % | Cyn cwnsela | | Ôl gwnsela | | Maint effaith (d)[43] |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Cymedr | Gs | Cymedr | Gs | |
| YP-CORE | 1 | 142 | 20 | 14.08% | 23.3 | 6.33 | 15.4 | 4.45 | 1.42 |
| | 2 | 46 | 20 | 43.48% | 16.1 | 6.50 | 9.55 | 7.55 | 0.91 |
| | 7 | 204 | 121 | 59.31% | 20.3 | 6.81 | 10.54 | 7.03 | 1.41 |
| | 9 | 376 | 150 | 39.89% | 20.33 | 6.58 | 9.71 | 6.84 | 1.58 |
| | 12 | 732 | 503 | 68.72% | 18.06 | 7.30 | 10.82 | 7.64 | 0.97 |
| | 13 | 170 | 102 | 60.00% | 14.29 | 7.76 | 8.52 | 7.80 | 0.74 |
| | 14 | 183 | 167 | 91.26% | 19.91 | 8.00 | 13.6 | 9.73 | 0.71 |
| | 17 | 299 | 50 | 16.72% | 21.08 | 7.77 | 10.94 | 7.00 | 1.36 |
| SDQ | 19 | 225 | 76 | 33.78% | 16.59 | 5.1 | 11.96 | 5.85 | 0.84 |

Ffynhonnell: Darparwyd data YP-CORE ac SDQ gan awdurdodau lleol

Noder: Mae'r gyfradd ymateb yn rhoi'r nifer o barau o ffurflenni canlyniadau cyn ac ôl gwnsela ar gyfer pob ALl (sampl) yn erbyn cyfanswm y nifer o gleientiaid oedd yn mynychu cwnsela yn yr ALl hwnnw (Cyfanswm cleientiaid). Nid yw'r ffigur hwn yn cael ei addasu gan y byddai rhai o'r Cyfanswm cleientiaid wedi mynychu un sesiwn yn unig, ac felly ni fyddai disgwyl iddynt ddychwelyd data canlyniadau ôl gwnsela.

3.33. Fodd bynnag, rhaid bod yn ofalus wrth ddehongli canlyniadau o achos y gyfradd isel o ymatebion mewn nifer o'r ALlau. Ble mae cyfraddau ymateb yn isel, y duedd yw goramcangyfrif yr effeithiau (Cooper, 2009), gan fod data gan bobl ifanc sydd wedi tynnu'n ôl o'r cwnsela (ac felly'n profi lefel is o welliant) yn dueddol o fod ar goll. Felly, er mwyn cyflawni'r bras amcan mwyaf dibynadwy a dilys o welliannau, bydd yn bwysig ceisio sicrhau bod data cyn ac ôl gwnsela ar gyfer 2010-11 ar gael i'r holl bobl ifanc sy'n mynychu cwnsela am ddau neu fwy o sesiynau.

*Data Gwerthuso Ôl Gwnsela*

3.34. Roedd data o holiaduron ôl gwnsela ar gael gan bum prosiect. Fodd bynnag, mewn tri o'r setiau data/adroddiadau, roedd yr holiaduron/dadansoddiadau wedi'u haddasu

[43] Tuedd wedi'i gywiro ar gyfer maint sampl bychan

mewn dull oedd yn golygu nad oedd yn hawdd cyfuno’r data. Felly dim ond data o ALlau 7 a 14 a gyflwynir yn Nhabl 5 isod.

3.35. Gwnaeth 109 o bobl ifanc ymateb i 11 o’r 16 o gwestiynau yn y ffurflen werthuso ôl gwnsela (gofynnwyd y 5 cwestiwn arall yn ALl 14 yn unig). Mae hyn yn cynrychioli dim ond 23% o’r penodau cwnsela ar gyfer y cyfnod amser haf 2008-09, a 2009-10, sy’n awgrymu dylid bod yn ofalus wrth ddehongli’r canfyddiadau.

3.36. Isod mae’r canrannau cytundeb net[44] ar gyfer pob eitem ar yr holiadur mewn trefn ddisgynnol. Fel y gwelir o’r tabl hwn, roedd cefnogaeth gref i sawl eitem gan awgrymu gwerthusiad cadarnhaol o’r gwasanaethau cwnsela, er roedd cytundeb net ar eitemau oedd yn awgrymu newidiadau cadarnhaol rhywfaint yn is. Dywedodd tua 60% o’r bobl ifanc y byddant yn ystyried cwnsela eto yn y dyfodol ar ôl gadael yr ysgol, ond dywedodd 20% na fyddant yn ei ystyried, gyda’r 20% oedd yn weddill heb benderfynu.

[44] Wedi’i benderfynu drwy gyfrifo cyfanswm y canran o gyfranogwyr oedd un ai'n cytuno neu’n cytuno’n gryf gyda datganiad ac wedyn tynnu cyfanswm y canran o’r rheini oedd un ai’n anghytuno neu’n anghytuno’n gryf gyda’r datganiad.

**Tabl 5 Canrannau cytundeb net ar gyfer yr holiadur gwerthuso ôl gwnsela**

| Eitem | Cytundeb net | Cyfanswm |
|---|---|---|
| Rwy'n meddwl fod cwnsela'n ffordd dda o ymdrin â phroblemau | 96.3% | 109 |
| Roeddwn yn gallu trafod fy meddyliau a theimladau gyda fy nghwnselydd | 95.4% | 109 |
| Gwnaeth y cwnselydd fy helpu i ddeall fy sefyllfa a fy nheimladau | 94.5% | 109 |
| Roeddwn yn deall bod yr hyn oeddwn yn ei ddweud wrth y cwnselydd yn gyfrinachol oni bai fy mod mewn perygl | 92.7% | 109 |
| Byddwn yn gofyn i weld fy nghwnselydd eto os oedd angen | 90.8% | 109 |
| Rwy'n teimlo gallaf ymdopi yn well yn yr ysgol ers cael cwnsela | 82.6% | 109 |
| Rwy'n teimlo'n fwy cadarnhaol ers cael cwnsela | 80.7% | 109 |
| Byddwn yn argymell cwnsela i fy ffrindiau | 73.4% | 109 |
| Roedd yn hawdd cysylltu â'r cwnselydd | 66.9% | 109 |
| Fe dderbyniais ddigon o sesiynau cwnsela | 66.2% | 65 |
| Mae fy ymddygiad wedi gwella ers mynychu cwnsela | 65.1% | 109 |
| Mae fy mherthynas gyda'r teulu wedi gwella ers mynychu cwnsela | 64.6% | 65 |
| Ers mynychu cwnsela rwy'n gallu canolbwyntio'n well ar dasgau yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol | 53.9% | 65 |
| Mae fy mherthynas gyda ffrindiau wedi gwella ers mynychu cwnsela | 46.1% | 65 |
| Mae fy mherthynas gydag athrawon wedi gwella ers mynychu cwnsela | 41.5% | 65 |
| Buaswn yn ystyried cwnsela yn y dyfodol, hyd yn oed ar ôl gadael yr ysgol | 38.5% | 109 |

Ffynhonnell: Data gwerthuso ôl gwnsela a ddarparwyd gan ALlau 7 a 14

3.37. At hynny, gwnaethom dderbyn setiau o adborth ansoddol gan bobl ifanc oedd yn defnyddio'r gwasanaeth cwnsela yn ALlau 3, 16 a 20, gyda'r mwyafrif helaeth yn adborth cadarnhaol iawn. Gwnaeth y disgyblion nodi ei bod yn beth da gallu siarad â rhywun oedd yn deall eu problemau gan eu galluogi hwy i fagu hyder. Gwelir enghreifftiau o'r sylwadau isod:

- *Gwnaeth fy helpu i gyda f'agwedd, a galluogi i mi fod y person oeddwn i'n arfer bod.*
- *Mae wedi bod yn help mawr i mi ac roedd yn braf siarad â rhywun na fyddai'n gweiddi arnaf am yr hyn rwy'n ddweud. Mae wedi fy helpu i sortio llawer o broblemau a gwneud synnwyr o bethau yn fy mhen.*

- *Mae'r gwasanaeth cwnsela wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i mi. Ar ôl cael cyfle i siarad â rhywun, rwy'n ei gweld hi'n haws cyfathrebu ag eraill gan wybod bod fy ansicrwydd i amdanaf fy hun yn cael ei sortio. Does gen i bellach ddim cywilydd cyfaddef bod angen help arnaf, achos rwy'n gwybod nawr nad fi yw'r unig un sydd angen help a dydw i ddim yn teimlo mor isel amdanaf fy hun.*

*Crynodeb o ganfyddiadau'r data canlyniadau*

3.38. Ble mae ar gael, mae'r data o flwyddyn gyntaf y gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion Cymreig yn awgrymu bod canlyniadau'n dda ac ar lefel sy'n cymharu'n dda â gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion eraill yn y DU. Mae proffil y bobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaethau, a'u defnydd hwy o'r gwasanaeth, yn debyg iawn i ddarpariaethau cwnsela mewn ysgolion eraill yn y DU: gyda chymhareb merched i ddynion o oddeutu 60:40, blynyddoedd canol yr ysgol yn gwneud y defnydd mwyaf, a phroblemau wrth gyflwyno yn bennaf ynghylch teulu, dicter, ymddygiad, straen a phrofedigaeth. Mae cyfraddau mynychu'r gwasanaethau cwnsela'n uchel, ac mae pobl ifanc yn mynychu tua phedwar sesiwn o gwnsela i bob pennod ar gyfartaledd, gyda thua 10% yn cael eu cyfeirio ymlaen i wasanaethau eraill.

3.39. Mae gwybodaeth ddemograffig ynglŷn â chleientiaid a sut maent wedi defnyddio'r gwasanaethau cwnsela bron yn hollol gyflawn. Yn anffodus, mae'r cyfraddau ymateb ar gyfer data canlyniadau'r gwasanaethau sydd wedi dychwelyd yr wybodaeth yn isel yn gyffredinol. Mae data o'r Holiadur Gwerthuso Ôl Gwnsela (a gyhoeddwyd yn y "Pecyn Cymorth") yn ymddangos hyd yn oed yn fwy anghyson, gyda chyfraddau ymateb isel hyd yn oed ymysg y gwasanaethau hynny sydd wedi dychwelyd data gyda'r mesur hwn. Yn yr un modd, mae'r ffaith bod yr holiadur wedi ei addasu a'i unigoli mewn rhai achosion yn ei gwneud hi'n anodd cronni'r data. Fodd bynnag, bydd pob ALI yn casglu data canlyniadau ar gyfer y flwyddyn academaidd 2010/11 gan ddefnyddio ffurf safonol i fewnbynnu'r data. Caiff y canlyniadau hyn eu cynnwys yn adroddiad Cam Dau.

**Cyfrifiad ymysg Cwnselwyr Ysgol**

| **Cyfrifiad ymysg Cwnselwyr Ysgol: Canfyddiadau Allweddol** |
|---|
| ● Gwnaeth 80% o gwnselwyr ysgol nodi nad ydynt yn gorfod glynu wrth nifer uchaf o sesiynau<br>● Nododd ychydig dros hanner y cwnselwyr bod gwasanaeth cwnsela'r ysgol yn cael ei weithredu o fewn a'r tu allan i eiddo'r ysgol<br>● Gwnaeth dros hanner y cwnselwyr adrodd eu bod yn cael eu cyflogi gan asiantaeth allanol, yn hytrach na chan yr ysgol neu'r awdurdod lleol<br>● Roedd cytundeb y caiff y gwasanaeth ei gydnabod a'i werthfawrogi gan rieni a disgyblion<br>● Roedd cwnselwyr yn cytuno bod ganddynt gyfleoedd priodol ar gyfer hyfforddiant a threfniadau addas ar gyfer goruchwyliaeth glinigol<br>● Mae cwnselwyr yn teimlo eu bod yn derbyn cefnogaeth yn eu rôl a'u bod yn eglur am yr amgylchiadau pan ddylid cyfeirio disgybl at asiantaethau eraill<br>● Roedd llai na hanner o gwnselwyr mewn ysgolion yn cytuno bod lefelau staffio o fewn y gwasanaeth cwnsela yn ddigonol<br>● Cryfderau'r strategaeth cwnsela mewn ysgolion oedd:<br>▫ cydweithio gyda BACP ac asiantaethau eraill<br>▫ ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru<br>▫ Roedd hygyrchedd rwydd i'r gwasanaethau i blant a phobl ifanc hefyd yn cael ei ystyried yn un o gryfderau'r strategaeth<br>▫ Roedd yr adnoddau oedd ar gael gan Llywodraeth Cymru yn cael eu hystyried fel cryfder arall ymysg cwnselwyr ysgol, yn enwedig yn nhermau arian a'r Pecyn Cymorth<br>● Daeth argymhellion ar sut i wella'r strategaeth cwnsela mewn ysgolion i'r amlwg yn unol â'r gwendidau ac roeddent yn berthnasol i'r angen am ddarpariaeth arian yn y dyfodol |

*Trosolwg*

3.40. Yn ystod y cyfnod pan gynhaliwyd yr arolwg roedd 132 o gwnselwyr mewn ysgol yng Nghymru, a derbyniodd pob un wahoddiad i fynychu'r gynhadledd 'Cymru Gyfan' ble byddai'r arolwg yn cael ei ddosbarthu. Gwnaeth cyfanswm o 106 o gwnselwyr mewn ysgol (cyfradd ymateb o 80%) gwblhau'r holiadur ar bapur, gan amlygu gwybodaeth am y gwasanaeth ble maent yn gweithio a'u barn ar y Strategaeth. Gwelir gwybodaeth

am ryw, oed, ethnigrwydd, cenedligrwydd a chyfeiriad therapiwtig yn Nhabl 6.

**Tabl 6 Gwybodaeth ddemograffig a gasglwyd gan gwnselwyr mewn ysgol yng Nghymru**

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Fenyw | 89 | 84.0 |
| Gwryw | 15 | 14.1 |
| Data ar goll | 2 | 1.9 |
| **Oedran** | | |
| 18 – 29 | 10 | 9.4 |
| 30 – 39 | 30 | 28.3 |
| 40 – 49 | 45 | 42.5 |
| 50 – 59 | 15 | 14.1 |
| 60 – 69 | 4 | 3.8 |
| Data ar goll | 2 | 1.9 |
| | | |
| Brydeinig Gwyn | 94 | 88.7 |
| Yn aelod o gorff proffesiynol | 91 | 85.8 |
| Yn aelod o BACP | 82 | 77.4 |
| Gyda phrofiad blaenorol o weithio gyda phlant a phobl ifanc | 99 | 93.4 |
| Gyda hyfforddiant perthnasol i weithio gyda phlant a phobl ifanc | 84 | 79.2 |
| | | |
| **Lefel uchaf o gymhwyster cwnsela** | | |
| Doethuriaeth | 1 | 0.9 |
| Prifathrawiaeth | 17 | 16.0 |
| Diploma i Raddedigion | 60 | 56.6 |
| Diploma i Israddedigion | 15 | 14.2 |
| Diploma addysg bellach | 6 | 5.7 |
| Arall (e.e. gradd israddedig) | 7 | 6.6 |

| **Cyfeiriadaeth Therapiwtig** | | | |
|---|---|---|---|
| Integreiddiol | *Pan gaiff sawl model gwahanol o gwnsela a seicotherapi eu hymgorffori* | 62 | 58.5 |
| Dyneiddiol / Person Ganolrwydd | *Triniaeth sy'n annog pobl i ystyried eu teimladau ac adlewyrchu ar eu harwyddocâd* | 27 | 25.5 |
| Therapi gwybyddol ymddygiadol (CBT) | *Anogir cleientiaid i newid eu meddyliau a herio eu credoau creiddiol. Yn aml defnyddir technegau ymddygiad megis ymlacio.* | 6 | 5.7 |
| Seicodynamig | *Mae'r driniaeth hon yn pwysleisio pwysigrwydd yr isymwybod a phrofiad blaenorol wrth siapio ymddygiad presennol.* | 1 | 0.9 |
| Arall | | 9 | 8.5 |
| Data ar goll | | 1 | 0.9 |


Ffynhonnell: Cyfrifiad Cwnselwyr Ysgolion. Data sydd ar goll yn cyfeirio at eitemau gwag ar yr holiaduron a ddychwelwyd

*Ynglŷn â'r gwasanaeth cwnsela*

3.41. Gofynnwyd i gwnselwyr os oedd nifer uchaf o sesiynau y gallant gynnig i ddisgyblion. Gwnaeth 80% nodi nad oedd rhaid iddynt lynu wrth nifer uchaf o sesiynau. I'r rheiny wnaeth nodi eu bod yn cynnig nifer uchaf o sesiynau, y nifer uchaf cyfartalog oedd 6 sesiwn.


3.42. Casglwyd gwybodaeth ar ble roedd y gwasanaeth cwnsela yn gweithredu, a phwy oedd cyflogwyr y cwnselwyr. Gwnaeth ychydig dros hanner (53%) o gwnselwyr nodi bod gwasanaeth cwnsela'r ysgol yn gweithredu o fewn a'r tu allan i eiddo'r ysgol, ac yn debyg adroddodd dros hanner y cwnselwyr (57%) eu bod yn cael eu cyflogi gan asiantaeth allanol, yn hytrach na'u cyflogi gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol. Dangosir y canrannau yn Ffigurau 2 a 3.

**Ffigur 2 Lleoliad ble gweithredir gwasanaeth cwnsela'r ysgol**




Ffynhonnell: Cyfrifiad Cwnselwyr Ysgolion

**Ffigur 3 Pwy sy'n cyflogi'r cwnselydd (cwnselwyr)**





Ffynhonnell: Cyfrifiad Cwnselwyr Ysgolion

*Ymagwedd a barn cwnselwyr mewn ysgol*

3.43. Yn ogystal, holwyd cwnselwyr mewn ysgol am eu barn o gwnsela mewn ysgolion gan gyfeirio at eu rôl eu hunain. Fel y gwelir yn Ffigur 4, ymddengys bod cwnselwyr ysgol

yng Nghymru yn cytuno caiff y gwasanaeth ei gydnabod a’i werthfawrogi gan y rhieni a’r disgyblion, bod ganddynt gyfleoedd priodol ar gyfer hyfforddiant pellach a threfniadau addas ar gyfer goruchwyliaeth glinigol. Yn ogystal, cânt eu cefnogi yn eu rôl ac maent yn eglur am yr amgylchiadau pan ddylid cyfeirio disgybl i asiantaethau eraill (mae 62% wedi gwneud cyfeiriadau i wasanaethau arbenigol megis CAMHS ac mae 63% wedi derbyn cyfeiriadau gan wasanaethau arbenigol megis CAMHS). Fodd bynnag roedd llai na hanner y cwnselwyr ysgol (47%) yn cytuno bod lefelau staffio o fewn y gwasanaeth cwnsela’n ddigonol. Gwelir manylion pellach am ymatebion cwnselwyr mewn ysgolion am ddatganiadau ymagwedd yn Ffigur 16, ble gwneud cymhariaeth yn erbyn ymagwedd penaethiaid/athrawon cyswllt ac arweinwyr/rheolwyr gwasanaeth mewn awdurdodau lleol.

**Ffigur 4 Ymagwedd cwnselwyr tuag at y gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion**




Ffynhonnell: Cyfrifiad Cwnselwyr Ysgolion

*Cryfderau, Gwendidau ac Argymhellion*

3.44. Hefyd, gofynnwyd cwestiynau pen agored i'r cwnselwyr mewn ysgol am gryfderau a gwendidau'r strategaeth cwnsela mewn ysgolion yng Nghymru a gofynnwyd iddynt gynnig unrhyw argymhellion er mwyn gwella'r gwasanaeth. Dadansoddwyd y data ansoddol yma'n thematig. Gwelir y prif themâu ar gyfer cryfderau, gwendidau ac argymhellion yn Nhablau 7a-c a chânt eu hystyried isod.

3.45. Gwnaeth cwnselwyr mewn ysgolion ddynodi mai un o gryfderau'r strategaeth gwnsela mewn ysgolion oedd y cydweithio gyda BACP ac asiantaethau eraill: *'Cysylltiadau cryf gyda BACP'*, *'Cydweithio i sicrhau gweithio rhyngasiantaethol er mwyn sicrhau ymagwedd ysgol gyfan'* a hefyd ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru: *'Synnwyr o werth yn dod yn sgil ymrwymiad Llywodraeth Cymru'*. Roedd hygyrchedd rwydd i'r gwasanaethau i blant a phobl ifanc hefyd yn cael ei ystyried yn un o gryfderau'r strategaeth: *'Caniatáu i blant a phobl ifanc gyrchu'r gwasanaeth mewn awyrgylch sy'n gyfarwydd iddynt a heb aflonyddu gormod ar eu haddysg'*; *'Dim loteri cod post'*; *'Rhoi cyfleoedd i'r holl bobl ifanc i gyrchu cwnsela'*. Cryfder arall a nodwyd gan y cwnselwyr mewn ysgol yw'r adnoddau sydd ar gael drwy Llywodraeth Cymru, yn enwedig yn nhermau ariannu a'r Pecyn Cymorth; *'Darparu'r gwasanaeth ledled Cymru'; 'Ariannu cynaliadwy'; 'Y Pecyn Cymorth'.* Ystyriwyd mai un cryfder i'r strategaeth oedd iddi gael ei hyrwyddo'n eang a'i bod wedi codi ymwybyddiaeth am gwnsela mewn ysgolion; *'Y ffaith ei fod yn bodoli a'i bod yn cael ei hyrwyddo i bawb'; 'Codi ymwybyddiaeth am les emosiynol o fewn lleoliadau addysgol, rhannu ymarfer a theori'*. Ac yn olaf, roedd teimlad mai un o gryfderau'r strategaeth oedd ei bod yn gallu cynnig cwnsela mewn ffordd annibynnol ond oedd yn dal i fod wedi'i integreiddio o fewn amgylchedd yr ysgol; *'Darpariaeth y cwnsela yn annibynnol o'r ysgol ond wedi'i fewnosod oddi mewn i'r ysgol'; 'Ei fod yn wasanaeth ar wahân, ac nad yw'n rhan o'r ysgol, ond ei fod o fewn yr ysgol'; 'Gwasanaeth ar wahân o fewn yr ysgol'*.

**Tabl 7a Themâu sy'n dod i'r amlwg ynglŷn â chryfderau'r strategaeth cwnsela mewn ysgolion**

| Thema | Nifer o ddatganiadau cefnogol |
|---|---:|
| Cydweithio, ymrwymiad a chefnogaeth | 30 |
| Hygyrchedd | 17 |
| Adnoddau | 17 |
| Ymwybyddiaeth a Chyhoeddusrwydd | 8 |
| Annibynnol ac Integredig | 6 |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Cwnselwyr Ysgolion

3.46. Pan ofynnwyd am unrhyw wendidau yn y strategaeth, daeth dwy thema allweddol i'r amlwg, sef 'ariannu ac adnoddau' ac 'ymwybyddiaeth a hyfforddiant', fel y gwelir yn Nhabl 7b, ynghyd â nifer o themâu eraill. Dynodwyd yn yr adborth mai'r prif fater o amgylch ariannu ac adnoddau oedd pryder am ddiogelwch arian yn y dyfodol: *'Ansicrwydd o achos yr arian neu'r diffyg adborth am ariannu cynaliadwy' 'Diffyg ariannu llawn i weithredu sylfaen gryfach mewn ysgolion', 'Ariannu nad yw'n gynaliadwy'*. Roedd teimlad hefyd bod staff arall yn yr ysgol angen hyfforddiant am gwnsela mewn ysgol, yn enwedig ynglŷn â rôl cwnselydd mewn ysgol: *'Llawer mwy o hyfforddiant i athrawon yn nodi'r rôl a pherthynas gweithio gyda'r cwnselwyr'; 'Addysgu staff yr ysgol am rôl a phwysigrwydd cwnselwyr mewn ysgol'; 'Ymwybyddiaeth wael o rôl a buddion cwnsela ymysg staff'*.

3.47. Daeth themâu eraill i'r amlwg o ran gwendidau, ond nid oedd cymaint o ddatganiadau fel uchod. Y themâu hyn oedd meysydd megis cysondeb ymagwedd ar draws awdurdodau lleol: *'Sicrwydd bod pob awdurdod lleol yn defnyddio'r un dull gweithio'*. Y diffyg cwnsela mewn ysgolion cynradd; hygyrchedd i'r rheiny mewn ardaloedd gwledig, cydweithio gyda darparwyr gwasanaeth megis amddiffyn plant; a'r angen i athrawon fod yn ymwybodol o bwysigrwydd cyfrinachedd yn y gwasanaeth cwnsela.

**Tabl 7b Themâu'n dod i'r amlwg am wendidau yn y strategaeth cwnsela mewn ysgolion**

| Thema | Nifer o ddatganiadau cefnogol |
|---|---:|
| Ariannu ac Adnoddau | 33 |
| Ymwybyddiaeth a Hyfforddiant | 15 |
| Cysondeb | 4 |
| Ysgolion Cynradd | 4 |
| Hygyrchedd | 4 |
| Cydweithio | 3 |
| Cyfrinachedd | 3 |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Cwnselwyr Ysgolion

3.48. Daeth argymhellion ar gyfer gwella strategaeth gwnsela'r ysgol i'r amlwg yn unol â'r gwendidau a amlinellwyd uchod mewn perthynas â'r angen i ddarparu arian yn y dyfodol: *'Ariannu i barhau; pob ysgol i gyflogi eu cwnselwyr eu hunain yn uniongyrchol'; 'Sicrhau bod ysgolion yn defnyddio'r arian a ddyrannwyd yn gywir';* a gwella adnoddau: *'Darparu ystafelloedd a'r offer addas sydd ei angen er mwyn cynnig gwasanaeth cwnsela llawn sy'n cael ei werthfawrogi'; 'Gwella'r amgylchiadau mewn ysgolion lle cynigir cwnsela'; 'Gwir ymrwymiad i ystafelloedd o well ansawdd sy'n dawelach a sydd, o ran therapi, yn fwy diogel'*.

3.49. Roedd yr ail argymhelliad a ddaeth i'r amlwg o ymatebion cwnselwyr mewn ysgolion ynghylch y thema 'Hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth'. Fel y nodwyd yn yr ymateb i 'wendidau', gwnaeth cwnselwyr mewn ysgolion argymell yr angen am hyfforddiant i staff ysgolion ar y broses cwnsela mewn ysgolion: *'Dyddiau hyfforddi i staff i godi ymwybyddiaeth am yr hyn all y gwasanaeth cwnsela ei gynnig a'r ffiniau cyfrinachedd'; 'Hyfforddiant i athrawon i gynnwys rhai agweddau o'r problemau mae plant yn eu hwynebu heddiw'*.

**Tabl 7c Themâu a ddaeth i'r amlwg o'r Argymhellion i wella'r strategaeth cwnsela mewn ysgolion**

| Thema | Nifer o ddatganiadau cefnogol |
|---|---:|
| Ariannu ac Adnoddau | 38 |
| Hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth | 13 |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Cwnselwyr Ysgolion

*Crynodeb o'r cyfrifiad ymysg cwnselwyr mewn ysgol*

3.50. Mae'r elfen hon o'r gwerthusiad wedi dangos bod y mwyafrif o gwnselwyr mewn ysgolion yng Nghymru yn fenywaidd, yn Wyn a Phrydeinig a'u bod hefyd yn aelodau o gorff proffesiynol (yn enwedig BACP). Mae aelodaeth o gorff proffesiynol yn sicrhau bod cwnselwyr yn glynu wrth fframwaith moesegol a'u bod yn destun gweithdrefn gwyno. Mae dros 90% o gwnselwyr mewn ysgol wedi cael profiad blaenorol o weithio gyda phlant a phobl ifanc.

3.51. Mae lefel y cymwysterau cwnsela sydd gan gwnselwyr mewn ysgolion yn amrywio o ddiploma israddedig i Ddoethuriaeth, gyda'r mwyafrif yn meddu ar ddiploma ôl-raddedig mewn cwnsela. Canfu bod cryn amrywiaeth ymysg cwnselwyr mewn ysgolion o ran y cyfeiriad therapiwtig y maent yn glynu ato.

3.52. Canfu bod gwasanaethau'n hyblyg ar y cyfan o ran y nifer o sesiynau a'u lleoliad, gyda gwasanaethau cwnsela'n gweithredu o fewn a'r tu allan i eiddo'r ysgol mewn dros hanner yr achosion. Mae gwasanaethau'n gweithio'n agos gyda gwasanaethau arbenigol, megis CAMHS, gydag oddeutu 62% o gwnselwyr wedi gwneud a/neu wedi derbyn cyfeiriadau gan CAMHS. Mae'r ffaith mai dim ond 3.1% o ddefnyddwyr gwasanaeth a gyfeiriwyd at CAMHS (gweler Tabl 2f) yn awgrymu bod y mwyafrif helaeth o ddefnyddwyr gwasanaeth wedi derbyn triniaeth o fewn y gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion ac nad wnaeth gweithredu'r Strategaeth arwain at gynnydd mewn cyfeiriadau newydd i CAMHS.

3.53 Materion allweddol a godwyd gan gwnselwyr mewn ysgolion yw bod llai na 50% o gytundeb net bod gwasanaethau'n sensitif i anghenion siaradwyr Cymraeg, ac yn debyg bod llai na 50% o gytundeb net bod lefelau staffio'n ddigonol. Roedd ychydig uwch na 50% o gytundeb net ymysg cwnselwyr ysgol bod yr adeiladau ar gyfer cwnsela mewn ysgolion yn addas, a thebyg oedd y ffigur am ddigonedd yr adnoddau i'r gwasanaeth. Roedd lefel uchel o gytundeb bod gwasanaethau'n rhan integrol o ddarpariaeth ysgol; bod dulliau monitro a gwerthuso'n foddhaol; bod gwasanaethau'n hygyrch a'u bod yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi gan staff yr ysgol, disgyblion a rhieni.

3.54. Yr argymhellion allweddol a wnaed gan gwnselwyr mewn ysgolion i wella'r gwasanaeth oedd sicrhau mwy o arian a diogelu arian yn y dyfodol a chreu mwy o gyfleoedd hyfforddi i gwnselwyr mewn ysgolion gyda chyfleoedd hyfforddi hefyd ar gael i addysgu staff yr ysgol am y gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion.

**Cyfrifiad ymysg Penaethiaid / Athrawon Cyswllt Ysgolion**

**Cyfrifiad ymysg Penaethiaid / Athrawon Cyswllt Ysgolion: Canfyddiadau Allweddol**

- Gwnaeth dau draean o'r penaethiaid ysgol / athrawon cyswllt y cysylltwyd â hwy, gymryd rhan yn yr arolwg, sy'n sylweddol uwch na'r disgwyl.
- Gwnaeth dros hanner yr ysgolion ddynodi eu bod wedi darparu gwasanaeth cwnsela mewn ysgol cyn ei weithredu fel rhan o'r strategaeth genedlaethol.
- Dynodwyd gan y mwyafrif o'r ysgolion (78%) oedd â gwasanaeth cwnsela cyn y strategaeth genedlaethol, bod y gwasanaeth cwnsela wedi gwella ers cyflwyno'r strategaeth cwnsela mewn ysgolion
- Yn y mwyafrif o achosion (93%) adroddwyd bod cwnselwyr sy'n gweithio o fewn ysgolion yn rhedeg sesiynau yn gyson
- Ar gyfartaledd, yr amser aros ar gyfer apwyntiad oedd 1-2 wythnos.
- Roedd cytundeb net sylweddol (91%) ymysg penaethiaid/athrawon cyswllt bod gwasanaeth cwnsela'r ysgol yn diwallu anghenion disgyblion
- Roedd cytundeb net o 60% bod y gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion wedi arwain i welliannau mewn cyrhaeddiad a phresenoldeb.
- Roedd cytundeb net o 80% bod ymddygiad wedi gwella
- Ar y cyfan, roedd cytundeb nad oedd baich gwaith y staff wedi cynyddu na lleihau ers gweithredu'r strategaeth

*Trosolwg*

3.55. Cysylltwyd â phob athro cyswllt (neu bennaeth ble nad oedd athro cyswllt ar gael) mewn ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig ar draws Cymru i gymryd rhan mewn cyfrifiad ffôn deng munud gan ddefnyddio holiadur safonedig (gweler atodiad 2). Tynnwyd y cwestiynau addas ar gyfer y cyfrifiad o'r holiadur i gwnselwyr a ddisgrifir uchod, er mwyn gallu cymharu rhwng y gwahanol grwpiau o randdeiliaid.

3.56. Clustnodwyd oddeutu 240 o benaethiaid / athrawon cyswllt i gymryd rhan yn y cyfrifiad hwn a gwnaeth 158 (66%) o benaethiaid / athrawon cyswllt ymateb. Mae hwn yn gyfradd ymateb hynod o uchel ar gyfer arolwg o'r fath. Mae'r cyfranogwyr wedi'u dosrannu yn ôl natur eu swydd yn Nhabl 8.

**Tabl 8 Cyfranogwr yn ôl natur eu swydd**

| Rôl yn yr Ysgol | Rhif | Canran (%) |
|---|---|---|
| Pennaeth | 19 | 12.0 |
| Dirprwy bennaeth neu Bennaeth Cynorthwyol | 83 | 52.5 |
| Uwch reolwr neu aelod o dîm arweinyddiaeth arall | 42 | 26.6 |
| Athro dosbarth neu bwnc / darlithydd | 1 | 0.6 |
| Rheolwr/gofalwr/cefnogwr bugeiliol | 3 | 1.9 |
| Arall | 10 | 6.4 |
| Cyfanswm | 158 | 100 |

Ffynhonnell: Cyfrifiad ffôn pennaeth/athro cyswllt

*Ynglŷn â'r gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion*

3.57. Wrth i'r Strategaeth gael ei roi ar waith ledled Cymru ar wahanol amseroedd, casglwyd gwybodaeth ar bryd ddaeth pob ysgol unigol yn rhan o'r ffrwd. Gwelir dosraniad yr ysgolion gyda chyfeirnod o'r dyddiad y daethant yn rhan o'r ffrwd yn Nhabl 9.


**Tabl 9 Dyddiad y daeth yr ysgol yn rhan o'r ffrwd gyda'r strategaeth cwnsela mewn ysgolion**

| Dyddiad daeth yr ysgol yn rhan o'r ffrwd | Niferoedd yr ysgolion sy'n rhan o'r ffrwd | Canran (%) |
|---|---|---|
| Cyn-2007 | 14 | 8.9 |
| 2007 | 15 | 9.5 |
| 2008 | 16 | 10.1 |
| 2009 | 73 | 46.2 |
| 2010 | 23 | 14.6 |
| Anhysbys | 17 | 10.7 |
| Cyfanswm | 158 | 100 |

Ffynhonnell: Cyfrifiad ffôn pennaeth/athro cyswllt

3.58. Fel y gwelir yn Ffigur 5 gwnaeth dros hanner yr ysgolion nodi eu bod wedi darparu gwasanaeth cwnsela mewn ysgol cyn ei weithredu fel rhan o'r strategaeth genedlaethol.

**Ffigur 5 Ysgolion wnaeth ddynodi eu bod wedi darparu gwasanaeth cwnsela mewn ysgol cyn gweithredu fel rhan o'r strategaeth genedlaethol.**




Ffynhonnell: Cyfrifiad ffôn pennaeth/athro cyswllt


3.59. Mae'r mwyafrif o'r ysgolion hynny (78%) oedd â gwasanaeth cwnsela cyn y strategaeth genedlaethol wedi nodi bod y gwasanaeth wedi gwella ers cyflwyno'r strategaeth cwnsela mewn ysgolion. Pan ofynnwyd pam roeddent o'r farn bod y gwasanaeth wedi gwella ers gweithredu'r strategaeth, roedd ymatebion yn amrywio. Roedd y ddau ymateb mwyaf cyffredin yn cyfeirio at y ffaith bod darpariaeth ar gael yn fwy rheolaidd erbyn hyn a bod cwnselwyr o safon uwch. Gellir gweld ymatebion eraill yn Ffigur 6.

3.60. Yn union fel cwnselwyr ysgol, gofynnwyd hefyd i benaethiaid/athrawon cyswllt os oedd gwasanaeth cwnsela mewn ysgol yn gweithredu o fewn eiddo'r ysgol, mewn lleoliad y tu allan i eiddo'r ysgol, neu yn y ddau. Yn ddiddorol, ble gwnaeth cwnselwyr ysgolion nodi bod gwasanaethau cwnsela'n gweithredu ar y cyfan y tu mewn a'r tu allan i eiddo'r ysgol (53%), gwnaeth y mwyafrif o benaethiaid/athrawon cyswllt nodi bod gwasanaethau cwnsela'n gweithredu'n gyfan gwbl o fewn eiddo'r ysgol (87%) (Ffigur 7). Mae gwahaniaeth clir yn y canfyddiadau yma.

3.61. Eto, fel gyda cwnselwyr ysgol, gofynnwyd hefyd i'r penaethiaid/athrawon cyswllt pwy oedd yn cyflogi'r cwnselwyr oedd yn gweithio o fewn eu hysgolion, ac roedd yr ymatebion yn gyffelyb i ymatebion yng nghyfrifiad cwnselwyr mewn ysgolion (gweler Ffigur 8).


3.62. Gofynnwyd am wybodaeth bellach gan benaethiaid/athrawon cyswllt ysgolion ynglŷn â'r modd y mae'r gwasanaeth cwnsela'n cael ei redeg; er enghraifft, os cai sesiynau eu rhedeg yn rheolaidd neu ar sail ad hoc. Gofynnwyd hefyd i benaethiaid/athrawon cyswllt yr ysgol ddarparu bras amcan o'r amseroedd aros i ddisgyblion oedd am gyrchu cwnsela. Yn y mwyafrif o achosion (93%) adroddwyd bod cwnselwyr yn gweithio o fewn ysgolion yn rhedeg sesiynau yn rheolaidd (Ffigur 9) a bod yr amser aros cyfartalog am apwyntiad cyntaf yn amrywio'n sylweddol, o gael eu gweld yr un diwrnod i orfod aros am fwy na phedair wythnos, gydag amser aros cyfartalog o 1 – 2 wythnos (Ffigur 10).

**Ffigur 6 Y rhesymau pam mae'r gwasanaeth wedi gwella ers gweithredu'r strategaeth cwnsela mewn ysgolion**





Ffynhonnell: Cyfrifiad ffôn pennaeth/athro cyswllt

## Ffigur 7 Y lleoliad ble gweithredir y gwasanaeth cwnsela





Ffynhonnell: Cyfrifiad ffôn pennaeth/athro cyswllt

## Ffigur 8 Pwy yw cyflogwr y cwnselydd (neu gwnselwyr)





Ffynhonnell: Cyfrifiad ffôn pennaeth/athro cyswllt

**Ffigur 9 Canran y cwnselwyr sy'n rhedeg sesiynau rheolaidd o fewn yr ysgol**




Ffynhonnell: Cyfrifiad ffôn pennaeth/athro cyswllt

**Ffigur 10 Amser aros cyfartalog ar gyfer apwyntiad cyntaf unwaith i'r disgybl gael ei glustnodi fel rhywun sydd angen gweld cwnselydd mewn ysgol**





Ffynhonnell: Cyfrifiad ffôn pennaeth/athro cyswllt

3.63. Gwnaeth 75% o benaethiaid/athrawon cyswllt nodi nad oedd nifer uchaf o sesiynau ar gyfer pennod o gwnsela, sy'n cyd-fynd â'r canlyniadau o'r arolwg ymysg cwnselwyr mewn ysgol. O'r rheini wnaeth nodi bod nifer uchaf o sesiynau, mae Ffigur 11 yn

dangos ystod nifer uchaf y sesiynau a gynigwyd. Y nifer uchaf, ar gyfartaledd, o sesiynau a gynigwyd oedd 6, sy'n cyd-fynd â'r canfyddiadau ymysg cwnselwyr mewn ysgol a adroddwyd yn adran 5.

**Ffigur 11  Y nifer uchaf o sesiynau a gynigir i bob disgybl**





Ffynhonnell: Cyfrifiad ffôn pennaeth/athro cyswllt

*Agweddau a barn am y gwasanaeth cwnsela mewn ysgol*


3.64. Roedd cytundeb net sylweddol (91%) ymysg penaethiaid/athrawon cyswllt bod gwasanaeth cwnsela'r ysgol yn diwallu anghenion disgyblion. Gan ystyried cyfradd ymateb uchel yr arolwg, mae hyn yn ganfyddiad cadarn iawn. Yn nhermau'r effaith a ganfu ar gyrhaeddiad, presenoldeb ac ymddygiad disgyblion oedd wedi derbyn cwnsela mewn ysgol a'r baich gwaith ar staff, yn gyffredinol roedd y canlyniadau'n gadarnhaol, gyda thros 60% o gytundeb net bod y gwasanaeth cwnsela mewn ysgol wedi arwain at welliant mewn cyrhaeddiad a phresenoldeb. Yn ogystal, roedd cytundeb net o 80% bod ymddygiad wedi gwella (Ffigur 12). Cytunwyd yn gyffredinol nad oedd baich gwaith staff wedi cynyddu na lleihau ers gweithredu'r strategaeth (Ffigur 13).

**Ffigur 12 Canfyddiadau o effaith y gwasanaeth cwnsela mewn ysgol ar gyrhaeddiad, presenoldeb ac ymddygiad disgyblion**




Ffynhonnell: Cyfrifiad ffôn pennaeth/athro cyswllt

**Ffigur 13 Canfyddiadau o effaith y gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion ar faich gwaith y staff**




Ffynhonnell: Cyfrifiad ffôn pennaeth/athro cyswllt

3.65. Gofynnwyd hefyd i benaethiaid/athrawon cyswllt gynnig argymhellion ar sut gellir gwella'r gwasanaeth cwnsela. Fel ag y gwelwyd gyda chwnselwyr, roedd

argymhellion yn amrywio, gyda'r prif argymhellion yn sôn am yr angen am fwy o staff cwnsela a mwy o gydweithio rhwng cwnselwyr a staff yr ysgol (Ffigur 14). Yn ddiddorol, gwnaeth 6% o atebwyr nodi nad oedd angen gwneud unrhyw beth i wella'r gwasanaeth cwnsela.


*Crynodeb o'r cyfrifiad ymysg penaethiaid athrawon cyswllt*

3.66. Roedd dros hanner yr ysgolion yn yr arolwg wedi darparu gwasanaeth cwnsela cyn ei weithredu fel rhan o'r strategaeth genedlaethol, gyda 78% o'r farn bod y gwasanaeth wedi gwella ers cyflwyno'r Strategaeth, gan amlaf gan fod darpariaeth fwy rheolaidd ar gael. Adroddwyd bod gwasanaethau'n cael eu rhedeg yn rheolaidd, yn hytrach nac ar sail ad hoc, gyda hyblygrwydd yn nhermau'r nifer o sesiynau oedd ar gael, a'r amser aros cyfartalog yn 1-2 wythnos.

3.67. Roedd lefel uchel o gytundeb ymysg penaethiaid/athrawon cyswllt bod gwasanaethau cwnsela'n diwallu anghenion disgyblion ac roeddent yn cytuno bod cyrhaeddiad, presenoldeb ac ymddygiad y disgyblion oedd wedi derbyn cwnsela mewn ysgol wedi gwella, a hefyd, mai ychydig iawn o effaith oedd ar faich gwaith y staff.

3.68. Gwnaeth penaethiaid/athrawon cyswllt argymell y gellir gwella'r gwasanaeth gyda mwy o sesiynau cwnsela a chynnydd yn y lefelau staffio, oedd yn cyd-fynd ag argymhellion cwnselwyr ysgol.

**Ffigur 14 Argymhellion ar gyfer gwelliannau i'r gwasanaeth cwnsela**




Ffynhonnell: Cyfrifiad ffôn pennaeth/athro cyswllt

**Cyfrifiad ymysg Prif Arweinwyr/Rheolwyr Gwasanaeth Awdurdodau Lleol**

**Cyfrifiad ymysg Prif Arweinwyr/Rheolwyr Gwasanaeth Awdurdodau Lleol: Canfyddiadau Allweddol**

- Gwnaeth 96% o'r rheiny wnaeth gwblhau'r holiadur nodi bod ganddynt berthynas dda gyda gwasanaethau arbenigol megis CAMHS
- Roedd cytundeb net o 100% bod cwnselwyr yn cael cyfleoedd addas ar gyfer goruchwyliaeth glinigol. Fodd bynnag, roedd ymatebion llawer yn is ar gyfer hyfforddiant (52%) a lefelau staffio (56%).
- Dim ond 26% oedd y cytundeb net ymysg cwnselwyr mewn ysgolion bod y broses o sefydlu'r gwasanaeth cwnsela wedi bod yn effeithlon a didrafferth, o gymharu â 64% ymysg arweinwyr/rheolwyr gwasanaeth awdurdodau lleol a chytundeb net o 79% yn yr arolwg ymysg penaethiaid/athrawon cyswllt.
- Roedd cytundeb net o 56% ymysg arweinwyr /rheolwyr gwasanaeth awdurdodau lleol bod y gwasanaethau cwnsela'n sensitif i anghenion siaradwyr Cymraeg, dim ond 47.4% ymysg cwnselwyr ysgol a 28% yn yr arolwg o benaethiaid/athrawon cyswllt.
- Roedd cytundeb net o 54% yn yr arolwg ymysg cwnselwyr ysgol bod yr ystafelloedd oedd ar gael i'r gwasanaeth cwnsela yn ddigonol, o gymharu â 89% ymysg penaethiaid/athrawon cyswllt a 72% ymysg arweinwyr/ rheolwyr gwasanaeth awdurdodau lleol.
- Ymysg cwnselwyr ysgol, roedd cytundeb net is bod digonedd o adnoddau i'r gwasanaethau cwnsela (55%) nac ymysg penaethiaid/athrawon cyswllt (69%) ac arweinwyr/rheolwyr gwasanaeth awdurdodau lleol (75%).

*Trosolwg*

3.69. Nod elfen hon y gwerthusiad oedd casglu data ar farn Rheolwyr Gwasanaeth ac Arweinwyr Awdurdodau Lleol sy'n gyfrifol am y Strategaeth, er mwyn gallu cymharu yn erbyn safbwynt cwnselwyr mewn ysgolion a phenaethiaid/athrawon cyswllt. Cynhaliwyd arolwg ymysg tua 30 o brif arweinwyr a rheolwr gwasanaeth awdurdod lleol oedd yn y cyfarfod ar 11eg Tachwedd 2010 gan ddefnyddio holiadur papur. Cysylltwyd â'r arweinwyr awdurdod lleol nad oedd yn y cyfarfod drwy e-bost gyda fersiwn electronig o'r holiadur. Cwblhawyd a dychwelwyd cyfanswm o 25 holiaduron i'r tîm gwerthuso, sy'n dynodi cyfradd ymateb o 83%.

3.70. Mae'r holiadur (gweler atodiad 3) yn deillio o'r rhai a ddefnyddiwyd yn yr arolygon ymysg cwnselwyr mewn ysgol a phenaethiaid/athrawon cyswllt, ac ynddo roedd pedwar maes ymholiad: manylion am y gwasanaethau cwnsela; perthynas gyda gwasanaethau eraill; cryfderau a gwendidau'r strategaeth; ac argymhellion ar gyfer y dyfodol.

3.71. Roedd 52% o ymatebwyr yn arweinwyr awdurdodau lleol ar gyfer y strategaeth cwnsela mewn ysgol gyda 40% yn nodi eu bod mewn rôl rheolwr gwasanaeth, ac 8% arall yn nodi eu bod mewn rôl 'arall'.

*Ynglŷn â'r gwasanaeth cwnsela*


3.72. Nododd 76% nad oedd y gwasanaeth yr oeddynt yn ei reoli yn cynnig nifer uchaf o sesiynau i ddisgyblion, gan gefnogi canfyddiadau'r arolygon ymysg cwnselwyr mewn ysgol a phenaethiaid/athrawon cyswllt.

3.73. Gwnaeth 96% o'r rheiny wnaeth gwblhau'r holiadur nodi bod ganddynt berthynas dda gyda gwasanaethau arbenigol megis CAMHS, oedd yn cyd-fynd â'r arolwg ymysg cwnselwyr mewn ysgolion a ddarganfu bod dau draean o gwnselwyr mewn ysgolion un ai wedi derbyn cyfeiriadau gan, neu wedi gwneud cyfeiriadau i CAMHS.

*Agweddau a barn am y gwasanaeth cwnsela mewn ysgol*

3.74. Yn ogystal â'r datganiadau agwedd a holwyd i'r cwnselwyr mewn ysgol a'r penaethiaid/ athrawon cyswllt, gofynnwyd hefyd i arweinwyr/rheolwyr gwasanaeth awdurdodau lleol am ddarpariaeth goruchwyliaeth glinigol, cyfleoedd hyfforddi a lefelau staffio. Roedd cytundeb net o 100% bod cyfleoedd goruchwyliaeth glinigol addas i gwnselwyr. Fodd bynnag, roedd ymatebion yn llawer yn is ar gyfer hyfforddiant (52%), a lefelau staffio (56%) (gweler Ffigur 15).

**Ffigur 15 Cwestiynau agwedd a holwyd i'r arweinwyr/rheolwyr gwasanaeth awdurdodau lleol**



3.75. Fel ymysg cwnselwyr mewn ysgol a phenaethiaid/athrawon cyswllt, gofynnwyd i arweinwyr/rheolwyr gwasanaeth awdurdodau lleol nodi i ba raddau roeddent yn cytuno neu'n anghytuno gyda chyfres o ddatganiadau agwedd am gwnsela mewn ysgolion. Adroddir ar ganran y cytundeb net ar gyfer pob datganiad ar draws pob grŵp yn Ffigur 16. Mae pedwar datganiad allweddol ble roedd lefel y cytundeb yn amrywio'n sylweddol ar draws y tri grŵp o randdeiliaid:

- Roedd cytundeb net o ddim ond 26% ymysg cwnselwyr mewn ysgolion bod y broses o sefydlu'r gwasanaeth cwnsela wedi bod yn effeithlon ac yn ddidrafferth, o gymharu â 64% yn yr arolwg arweinwyr/rheolwyr gwasanaeth awdurdodau lleol a 79% yn yr arolwg penaethiaid/athrawon cyswllt.
- Y cytundeb net bod gwasanaethau cwnsela yn sensitif i anghenion siaradwyr Cymraeg oedd 56% ymysg arweinwyr/rheolwyr gwasanaeth awdurdodau lleol, dim ond 47% ymysg cwnselwyr mewn ysgol a 28% yn yr arolwg i benaethiaid/athrawon cyswllt.
- Yn yr arolwg ymysg cwnselwyr mewn ysgol roedd cytundeb net o 54% bod yr ystafelloedd ar gyfer y gwasanaeth cwnsela'n ddigonol, o gymharu â 89% ymysg penaethiaid/athrawon cyswllt a 72% ymysg arweinwyr/rheolwyr gwasanaeth awdurdodau lleol.
- Roedd y cytundeb net ymysg cwnselwyr mewn ysgolion bod digonedd o adnoddau i'r gwasanaethau cwnsela yn is (55%) nac ymysg penaethiaid/athrawon cyswllt (69%) ac ymysg arweinwyr/rheolwyr gwasanaeth awdurdodau lleol (75%).

*Cryfderau, Gwendidau ac Argymhellion*

3.76. Fel yn yr arolwg ymysg cwnselwyr mewn ysgol, gofynnwyd tri chwestiwn pen agored i arweinwyr/rheolwyr gwasanaeth awdurdodau lleol ynglŷn â chryfderau a gwendidau'r Strategaeth ac argymhellion ar gyfer gwelliannau. Mae'r canlyniadau fel a ganlyn:

Cryfderau

- Cefnogaeth
- Arian sydd ar gael
- Adnoddau (e.e. Pecyn Cymorth)
- Hygyrchedd i ddisgyblion
- Ymagwedd Cymru gyfan


Gwendidau

- Diffyg sicrwydd am ddarpariaeth arian yn y dyfodol
- Amrywioldeb yn y gwasanaethau ar draws ysgolion
- Amrywiaeth yn y dulliau casglu data ar draws gwasanaethau
- Bydd galw’n cynyddu, ond roedd pryderon am allu’r adnoddau i gyfateb i'r galw hwn

Argymhellion

- Cynnydd / parhau i ariannu
- Cydweithio gydag asiantaethau eraill a staff yr ysgol
- Cyfleoedd hyfforddi ar y cyd
- Parhau i werthuso’r gwasanaeth

**Ffigur 16 Cytundeb net ymysg cwnselwyr mewn ysgolion, penaethiaid/athrawon cyswllt ac arweinwyr/rheolwyr gwasanaeth mewn awdurdodau lleol ar y datganiadau agwedd am y gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion**




Ffynhonnell: Arolwg cwnselwyr, arolwg penaethiaid/athrawon cyswllt ac arolwg arweinwyr/rheolwyr gwasanaeth awdurdodau lleol

*Crynodeb o gyfrifiad ymysg y prif arweinwyr/rheolwyr gwasanaeth*

- Yn cefnogi canfyddiadau'r arolygon ymysg cwnselwyr a phenaethiaid/athrawon cyswllt nad yw gwasanaethau'n cyfyngu'r nifer o sesiynau cwnsela sydd ar gael i ddisgyblion
- Cefnogi'r canfyddiad bod gwasanaethau'n gweithio'n agos gyda gwasanaethau arbenigol megis CAMHS
- Roedd llai na 60% o gytundeb net bod ALlau yn darparu hyfforddiant i gwnselwyr mewn ysgolion
- Roedd llai na 60% o gytundeb net bod lefelau staffio'n ddigonol (mae hyn yn cefnogi canfyddiadau'r arolwg ymysg cwnselwyr)
- O ran os yw'r gwasanaethau'n sensitif i anghenion siaradwyr Cymraeg, roedd y cytundeb net uchaf ymysg arweinwyr / rheolwyr gwasanaethau ALlau o gymharu â chwnselwyr mewn ysgolion a phenaethiaid / athrawon cyswllt (gweler Ffigur 16).
- Cryfderau, gwendidau ac argymhellion yn cadarnhau'r rheiny a adroddwyd gan gwnselwyr mewn ysgolion a phenaethiaid / athrawon cyswllt.

# 4 Casgliad

*Effeithiolrwydd cwnsela mewn ysgolion*

4.1. Gan fod amrywiad yn y data canlyniadau o ansawdd dda sydd ar gael yng Nghymru rhaid bod yn ofalus wrth ddadansoddi'r canlyniadau. Fodd bynnag, mae'r data sydd ar gael o flwyddyn gyntaf y Strategaeth yn awgrymu bod canlyniadau'n dda a'u bod yn cymharu'n dda yn erbyn gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion eraill yn y DU. Mae'r manylion demograffig a'r manylion sesiwn ar gyfer y bobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaethau'n gyflawn iawn ac yn cynnig darlun clir o bwy sy'n defnyddio'r gwasanaethau ac ym mha ffordd. Mae proffil y bobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaethau yn debyg iawn i ddarpariaethau cwnsela mewn ysgolion eraill yn y DU. Mae cyfradd presenoldeb yn uchel, gyda phobl ifanc yn mynychu tua phedwar sesiwn cwnsela i bob pennod, ar gyfartaledd.

4.2. I raddau helaeth, bydd asesu canlyniadau'r Strategaeth yn ddibynnol ar y maint effaith sy'n gysylltiedig â'r ymyrraeth, a dim ond drwy ddata canlyniadau cadarn gellir amcangyfrif hyn. Heb ganran uchel o ymatebion o feysydd gwahanol, bydd yn anodd rhoi bras amcan credadwy o effeithiolrwydd cyffredinol yr ymyrraeth. Hyd yma, mae'r canlyniadau'n ymddangos yn addawol, ond hwyrach na fyddant mor gadarn petai archwiliad beirniadol yn cael ei gynnal heb gael data mwy cynhwysfawr. Byddem felly yn annog pob ardal i sicrhau eu bod yn defnyddio mesurau canlyniadau safonedig (YP-CORE neu SDQ) gyda phob cleient, ac yn ddelfrydol ar gyfer pob sesiwn fel bod y data 'diwedd therapi' ar gael hyd yn oed i'r cleientiaid hynny nad ydynt yn parhau â'r therapi. Dylai gwasanaethau cwnsela hefyd ystyried gyrru Holiaduron Gwerthuso Ôl Gwnsela (mewn dull sy'n anhysbys ac yn addas) i sicrhau'r gyfradd ymateb gorau bosibl. Ble bynnag bo'n bosibl, rydym hefyd yn annog gwasanaethau i ddefnyddio mesurau safonedig, fel y gellir casglu atebion ar draws pob ardal, ac rydym yn gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn annog hyn ar draws yr Awdurdodau Lleol a'u hysgolion. Yn olaf, rydym yn annog ardaloedd i ddefnyddio'r taenlenni fydd yn cael eu darparu i fewnbynnu data 2010-11, fel y gellir cyfuno data o bob ardal yn hawdd, pan yn bosibl.

*Y gweithlu cwnsela mewn ysgolion*

4.3. Mae'r gwerthusiad yn cynnig darlun clir o broffil cwnselwyr sy'n gweithio yn y gwasanaethau. Maent yn bennaf yn ferched, yn wyn ac yn Brydeinig, gyda'r mwyafrif helaeth yn aelodau o gorff proffesiynol, yn enwedig BACP, ac mae ganddynt brofiad

blaenorol o weithio gyda phlant a phobl ifanc. Mae amrywiad sylweddol yn y cyfeiriad therapiwtig a ddefnyddir gan y cwnselwyr ac yn lefel eu cymwysterau, er mae'r mwyafrif wedi hyfforddi i lefel ôl-raddedig. O ran yr hyfforddiant sydd ar gael i gwnselwyr, roedd llai na 60% o gytundeb net ymysg arweinwyr awdurdodau lleol eu bod yn darparu hyfforddiant i gwnselwyr mewn ysgolion ac roedd data o'r arolwg ymysg cwnselwyr wedi nodi dymuniad am fwy o gyfleoedd hyfforddi. Mae'r arolwg ymysg cwnselwyr hefyd yn awgrymu y gallai darparu hyfforddiant i staff yr ysgol am y rôl cwnsela mewn ysgolion hybu gwell dealltwriaeth a chynyddu lefel cydweithio.

*Gwasanaethau cwnsela*

4.4. Mae data'r arolwg yn awgrymu bod gwasanaethau'n hyblyg yn gyffredinol o ran y nifer o sesiynau a gynigir i ddisgyblion a'u lleoliad, gyda'r gwasanaethau'n gweithredu o fewn a'r tu allan i eiddo'r ysgol mewn mwy na hanner yr achosion. Caiff gwasanaethau eu rhedeg ar sail reolaidd yn hytrach nac yn ad hoc, gyda hyblygrwydd yn nhermau nifer y sesiynau, ac amser aros cyfartalog o 1-2 wythnos. Yn yr un modd, adroddir bod perthynas weithio agos gyda gwasanaethau arbenigol megis CAMHS. Yn gyffredinol mynegwyd bod lefel uchel o foddhad mewn perthynas ag integreiddio gwasanaethau i ddarpariaeth yr ysgol, y dulliau o fonitro a gwerthuso gwasanaethau, hygyrchedd a'r gwerth a roddir i'r gwasanaethau gan staff yr ysgol, disgyblion a rhieni.

4.5. Roedd dros hanner yr ysgolion yn yr arolwg wedi cynnig gwasanaeth cwnsela cyn gweithredu fel rhan o'r Strategaeth, ac mae'r gwasanaethau hyn wedi gwella ers cyflwyno'r Strategaeth. Mae data'r arolwg yn awgrymu mai bychan yw effaith sefydlu'r gwasanaethau ar faich gwaith y staff, ond ymddengys bod cyrhaeddiad, presenoldeb ac ymddygiad y disgyblion hynny sydd wedi derbyn cwnsela yn yr ysgol wedi gwella.

4.6. Mae amrywiad yn y canfyddiadau ar draws y grwpiau rhanddeiliaid gwahanol yn nhermau pa mor sensitif mae'r gwasanaethau i anghenion siaradwyr Cymraeg. Roedd y cytundeb net uchaf bod gwasanaethau'n sensitif ymysg arweinwyr/rheolwyr gwasanaethau mewn Awdurdodau Lleol o gymharu â chwnselwyr mewn ysgolion a phenaethiaid/athrawon cyswllt, oedd ag ymatebion llai cadarnhaol ar gyfartaledd.

*Adnoddau*

4.7. Ymddengys darlun cymysg yn nhermau lefel bodlonrwydd gydag adnoddau: dim ond 50% o gytundeb net oedd ymysg cwnselwyr ysgolion bod ystafelloedd cwnsela mewn ysgolion yn addas a bod y gwasanaethau'n cael digon o adnoddau. Mae llai na 60% o gytundeb net ymysg arweinwyr/rheolwyr gwasanaethau ALlau bod lefelau staffio'n

ddigonol, sy'n cydfynd â data o'r arolwg ymysg cwnselwyr mewn ysgolion. Argymhelliad allweddol a wnaed gan gwnselwyr mewn ysgolion oedd am gynnydd mewn arian a sicrwydd mewn arian ar gyfer y dyfodol. Yn debyg, gwnaeth penaethiaid / athrawon cyswllt awgrymu gellir sicrhau gwelliannau drwy gynnig mwy o sesiynau cwnsela a thrwy gynyddu lefelau staffio. Mae'n werth nodi bod Llywodraeth Cymru wedi sicrhau arian ar gyfer y Strategaeth am dair blynedd arall ers casglu'r data.

# 5 Argymhellion

5.1. Mae'r data a gasglwyd fel rhan o werthusiad Cam 1 yn awgrymu bod y Strategaeth ymhell ar y blaen o ran gweithredu, a bod lefel bodlonrwydd uchel yn bodoli ymysg grwpiau o randdeiliaid allweddol. Cofnodwyd lefel uchel o gytundeb ar draws setiau data'r arolwg gan awgrymu bod cryn gydsyniad ar draws y grwpiau. Hefyd, mae'r arwyddion cynnar yn awgrymu gallai ymyriadau cwnsela fod yn effeithiol wrth ostwng lefelau trallod ymysg disgyblion. Mae'r argymhellion allweddol o'r cyfnod hwn o'r gwerthusiad fel a ganlyn:

- Dylai awdurdodau lleol a gwasanaethau unigol wneud pob ymdrech i gasglu data canlyniadau mwy cyflawn ac unffurf i sicrhau gellir mesur effeithiolrwydd cwnsela mewn ysgolion.

- Dylai awdurdodau lleol ac ysgolion ddatblygu cyfleoedd ehangach ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus cyfredol i gwnselwyr ysgol a hyfforddiant i staff yr ysgol ar gwnsela mewn ysgolion.

- Fel rhan o werthusiad Rhan Dau, dylid cynnal archwiliad bellach i ba mor dda y mae gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion yn diwallu anghenion disgyblion sy'n siarad Cymraeg.

- Dylid monitro sut mae'r Strategaeth yn cael ei ariannu i sicrhau bod lefelau staffio'n ddigonol a bod gwasanaethau'n parhau i ddiwallu'r galw.

# 6 Cyfeiriadau


Clark, D. M., Fairbairn, C. G., & Wessely, S. (2008). Psychological treatment outcomes in routine NHS services: a commentary on Stiles et al. (2007). *Psychological Medicine*, 38, 629-634.

Cooper, M. (2009). Counselling in UK secondary schools: A comprehensive review of audit and evaluation studies. *Counselling and Psychotherapy Research*, 9(3), 137-150.

Goodman, R. (2001). Psychometric properties of the strengths and difficulties questionnaire. *Journal of the American Academy of Child and Adolescent Psychiatry*, 40(11), 1337-1345.

Twigg, E., Barkham, M., Bewick, B. M., Mulhern, B., Connell, J., & Cooper, M. (2009). The Young Person's CORE: Development of a brief outcome measure for young people. *Counselling and Psychotherapy Research*, 9(3), 160-168.

Pattison, S., Rowland, N., Cromarty, K., Richards, K., Jenkins, P., Cooper, M., Polat, F. (2007). *Counselling in Schools: A research study into services for children and young people in Wales*. [Cwnsela mewn ysgolion: astudiaeth ymchwil i'r gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru.] 14, Llywodraeth Cynulliad Cymru

# 7 Atodiadau

## Atodiad 1: Holiadur cwnselwyr mewn ysgolion

**Gwerthusiad o weithredu'r Strategaeth Genedlaethol Cwnsela mewn Ysgolion y Llywodraeth Cynulliad Cymru**

Nod yr holiadur hwn yw casglu gwybodaeth a chael eich barn ar effeithiolrwydd gweithredu'r strategaeth cwnsela mewn ysgolion yng Nghymru. Mae'n rhan o astudiaeth ehangach ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) gyda'r nod o ddynodi gwelliannau ar weithredu'r strategaeth cwnsela mewn ysgolion.

**Cedwir y wybodaeth yn hollol gyfrinachol a chaiff ei drin gyda'r parch mwyaf. Ni chaiff, dan unrhyw amgylchiadau, cyfranwyr unigol cael ei adnabod yn yr adroddiadau.**

**Y GWASANAETH LLE RYDYCH YN GWEITHIO**

1. Am ba mor hir bu'r gwasanaeth cwnsela ysgolion lle rydych yn gweithio wedi cael ei weithredu fel rhan o strategaeth cwnsela mewn ysgolion y Llywodraeth Cynulliad Cymru?

   Blynyddoedd ☐ Misoedd ☐

   Dydw i ddim yn gwybod ☐

2. A oes yna nifer uchaf o sesiynau yn cael ei gynnig i bob cleient yn eich gwasanaeth?

   Oes ☐ Nac oes ☐

   Os oes, manylwch os gwelwch yn dda ______________________________

3. A yw'r gwasanaeth lle rydych yn gweithio yn rhoi cwnsela? (ticiwch y ddau os yn briodol):

   a) O fewn tir yr ysgol ☐

   b) Mewn lleoliad y tu allan i safle'r ysgol ☐

4. A ydych yn cael eich cyflogi gan?

   a) Ysgol ☐

   b) Awdurdod addysg lleol ☐

   c) Asiantaeth allanol ☐

      Manylwch os gwelwch yn dda ______________________________

   d) Arall, rhowch fanylion os gwelwch yn dda ______________________

5. Rhowch fanylion am yr ysgol(ion) lle rydych yn gweithio fel cwnselydd ysgol:

| **Enw'r ysgol** | **Tref** | **Awdurdod lleol** |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

6. A ydych wedi cyfeirio disgyblion at wasanaethau arbenigol megis GIG CAMHS?

   Do ☐ Naddo ☐

7. A chyfeiriwyd pobl ifainc atoch chi am gwnsela gan wasanaethau arbenigol megis GIG CAMHS?

   Do ☐ Naddo ☐

**EICH BARN AR GWNSELA MEWN YSGOLION**

**Rhowch gylch ar yr ymateb priodol gan fynegi i ba raddau yr ydych yn cytuno neu yn anghytuno gyda phob datganiad mewn perthynas â'r gwaith rydych yn ei wneud fel rhan o Strategaeth Cwnsela mewn Ysgolion y Llywodraeth Cynulliad Cymru. Os ydych yn gweithio mewn mwy nag un ysgol, dewiswch yr ysgol lle rydych yn gwario'r rhan fwyaf o'ch amser a rhowch ateb mewn perthynas â'r ysgol hon. Rhowch farc seren ar gyfer yr ysgol hon yng Nghwestiwn 5 uchod.**

| | | Cytuno'n gryf | Cytuno | Dim yn cytuno nag yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Mae'r safle ar gyfer y gwasanaeth cwnsela lle rwy'n gweithio yn ddigonol | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 2 | Rwy'n siŵr ar bryd i gyfeirio disgybl at asiantaethau eraill megis GIG CAMHS | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 3 | Fe leolir y gwasanaeth mewn safle sy'n hawdd i ddisgyblion cael ato | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 4 | Fe roddir cwnsela mewn gosodiad priodol sy'n breifat ond yn ddiogel yn agos i'r ysgol | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 5 | Mae'r gweithdrefnau ar gyfer monitro a gwerthuso'r gwasanaeth cwnsela yn foddhaol | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 6 | Mae lefel staffio'r gwasanaeth cwnsela yn ddigonol | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 7 | Mae adnoddau digonol ar gyfer y gwasanaeth cwnsela lle rwy'n gweithio | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 8 | Fe roddir cyfleoedd priodol i mi ar gyfer hyfforddiant pellach mewn perthynas â chwnsela mewn ysgolion | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 9 | Mae'r gwasanaeth cwnsela yn gweithio'n agos gyda mentrau eraill i gefnogi iechyd a lles yn yr ysgolion | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 10 | Rwy'n fodlon gyda'r trefniadau a roddir ar gyfer goruchwylio clinigol | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 11 | Mae'r gwasanaeth cwnsela yn rhan annatod o ddarpariaeth yr ysgol | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 12 | Fe gydnabyddir a gwerthfawrogir y gwasanaeth cwnsela gan y disgyblion | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 13 | Mae cyhoeddusrwydd da i'r gwasanaeth cwnsela yn yr ysgol | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 14 | Mae'r gwasanaeth cwnsela yn sensitif i anghenion gwahanol gymunedau a grwpiau ethnig | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 15 | Mae agwedd y gwasanaeth tuag at gyfrinachedd yn cydbwyso anghenion y rhieni, y plant a diogelu gweithdrefnau yn briodol. | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 17 | Mae'r gwasanaeth cwnsela yn sensitif i anghenion siaradwyr Cymraeg | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 18 | Mae gan y gwasanaeth cwnsela cefnogaeth weinyddol da | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 19 | Fe gydnabyddir ac fe werthfawrogir y gwasanaeth cwnsela gan staff yr ysgol | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 20 | Bu'r broses o sefydlu'r gwasanaeth cwnsela yn effeithiol a heb broblem | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 21 | Fe gydnabyddir ac fe werthfawrogir y gwasanaeth cwnsela gan y rhieni | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 22 | Rwy'n teimlo fy mod yn cael cefnogaeth dda yn fy rôl fel cwnselydd ysgol | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |

**Gwybodaeth ychwanegol**

Beth yw eich barn am gryfderau Strategaeth Cwnsela mewn Ysgolion y Llywodraeth Cynulliad Cymru?

Beth yw eich barn am wendidau Strategaeth Cwnsela mewn Ysgolion y Llywodraeth Cynulliad Cymru?

Pa awgrymiadau a fyddech yn gwneud i wella'r Strategaeth Cwnsela?

**AMDANOCH CHI**

**Cwestiynau demograffig i'w defnyddio ar gyfer dibenion dadansoddi yn unig. Cedwir yr holl wybodaeth yn ddienw.**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1. Rhyw | Gwryw | ☐ | Fenyw | ☐ |
| 2. Oedran | 18 – 29 | ☐ | 50 – 59 | ☐ |
| | 30 – 39 | ☐ | 60 – 69 | ☐ |
| | 40 – 49 | ☐ | 70+ | ☐ |

3. Beth yw eich barn am eich ethnigrwydd?

| | | | |
|---|---|---|---|
| Brydeinig Gwyn | ☐ | Du neu Ddu Brydeinig Garibïaidd | ☐ |
| Gwyddelig Gwyn | ☐ | Du neu Ddu Brydeinig Affricanaidd | ☐ |
| Cymysg Gwyn a Charibïaidd Du | ☐ | Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig Indiaidd | ☐ |
| Cymysg Gwyn ac Affricanaidd Du | ☐ | Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig Pacistanaidd | ☐ |
| Cymysg Gwyn ac Asiaidd | ☐ | Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig | ☐ |
| Cefndir cymysg arall (manylwch isod os gwelwch yn dda) | ☐ | Bangladeshaidd | ☐ |
| ______________________________ | | Cefndir Asiaidd arall | ☐ |
| | | Tsieinïaidd | ☐ |

Grŵp ethnig arall, rhowch fanylion os gwelwch yn dda ___________________

Gofynnir am y wybodaeth hon i ganfod y nifer o Gwnselwyr Cymraeg sydd ynghlwm â strategaeth LlCC.

Beth ydych yn ystyried yw eich cenedligrwydd? _________________________

4. Mae'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 yn diffinio anabledd fel nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith groes sylweddol a hirdymor ar y gallu i ymgymryd â gweithgareddau arferol bob dydd.

   A ydych yn ystyried bod gennych anabledd? Ydwyf ☐ Nac ydwyf ☐

5. A ydych yn aelod o fudiad proffesiynol? Ydwyf ☐ Nac ydwyf ☐

   Os ydych, rhowch fanylion os gwelwch yn dda: _________________________

   BACP ☐ BPS ☐ UKCP ☐ BABCP ☐

   Arall, rhowch fanylion os gwelwch yn dda ______________________________

6. Beth yw'r lefel uchaf o gymhwyster cwnsela sydd gennych?

Doethuriaeth ☐ Prifathrawiaeth ☐ Diploma i Raddedigion ☐

Diploma FE ☐ Diploma i Israddedigion ☐

Arall, rhowch fanylion os gwelwch yn dda ______________________________

7. A fu gennych brofiad o weithio gyda phlant a phobl ifainc cyn i chi gymryd eich rôl bresennol fel cwnselydd ysgol?

Oedd ☐ Nac oedd ☐

8. A ydych wedi cael hyfforddiant penodol neu gymwysterau sy'n berthnasol â gweithio gyda phlant a phobl ifainc?

Do ☐ Nac oes ☐

Os ydych, rhowch fanylion os gwelwch yn dda am bryd cawsoch yr hyfforddiant yma ac/neu'r cymhwyster ac a oedd yn berthnasol i strategaeth cwnsela mewn ysgolion.

| |
|---|
| |

9. Am ba mor hir ydych wedi gweithio fel cwnselydd ysgol?

Blynyddoedd ☐ Misoedd ☐

10. Sut fuasech yn disgrifio eich prif gyfeiriadaeth therapiwtig?

Seicodynamig ☐ Integreiddiol ☐

Dyneiddiol / Person Ganolrwydd ☐ Therapi gwybyddol ymddygiadol (CBT) ☐

Arall, rhowch fanylion os gwelwch yn dda ______________________________

**Diolch yn fawr i chi am gwblhau'r holiadur hwn.**
**Dychwelwch yn yr amlen os gwelwch yn dda**

## Atodiad 2: Holiadur ffôn i benaethiaid/athrawon cyswllt

### Gwerthusiad o weithredu'r Strategaeth Genedlaethol Cwnsela mewn Ysgolion y Llywodraeth Cynulliad Cymru

OS NAD OES CYSWLLT PENODOL, GOFYNNWCH I SIARAD Â'R "DDOLEN GYSWLLT" NEU ATHRO ARALL SY'N UWCH REOLWR SYDD Â CHYFRIFOLDEB DROS Y GWASANAETH CWNSELA MEWN YSGOL. OS NAD OES RHYWUN, GOFYNNWCH I SIARAD Â'R PENNAETH. UNWAITH I CHI GAEL GAFAEL AR RYWUN, DYWEDWCH:

**Bore da / Pnawn da. Enw fi yw »enw« ac rwy'n galw o Ipsos MORI, y cwmni ymchwil cymdeithasol.**

**Rydym yn cynnal arolwg o bob ysgol uwchradd a phob ysgol arbennig yng Nghymru gyda disgyblion rhwng un ar ddeg a phymtheg mlwydd oed i geisio cael eu barn a'u profiadau am y strategaeth cwnsela mewn ysgolion.**

**Mae hwn yn rhan o werthusiad ehangach ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n cael ei gyd-drefnu gan gonsortiwm o Gymdeithas Brydeinig ar Gwnsela a Seicotherapi, Ipsos MORI, Prifysgol Strathclyde, Prifysgol Newcastle, Gwasanaeth Seicoleg Addysgiadol Caerdydd a Phrifysgol Cymru Casnewydd. Nod y gwerthusiad yw canfod gwelliannau i weithrediad y strategaeth.**

**Anfonwyd llythyr atoch yn ddiweddar am yr ymchwil hwn. <CYFWELYDD - DYLECH GYNNIG GYRRU'R LLYTHYR ETO OS NAD YW'R ATEBYDD WEDI EI DDERBYN>.**
**Bydd y cyfweliad yn cymryd tua deg munud o'ch amser.**

**Cyn cychwyn, hoffwn eich sicrhau bydd eich atebion yn cael eu trin yn hollol gyfrinachol gan y consortiwm ac yn unol â Chod Ymddygiad Cymdeithas Ymchwil Marchnata. Defnyddir eich atebion ar gyfer amcanion ymchwil yn unig. Caiff y data a dderbynnir ei gyfuno fel na fydd yn bosibl i uniaethu unrhyw unigolyn neu ysgol / coleg penodol yn y data a gyflwynir i Lywodraeth Cynulliad Cymru.**

GOFYN I BAWB

**S1.** ***Hoffwn sicrhau - ai chi yw'r "Ddolen Gyswllt" ar gyfer y gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion yn eich ysgol?*** DARLLENWCH. COD SENGL

| | |
|---|---|
| Ie | PARHAU |
| Nage | GOFYNNWCH I SIARAD Â DOLEN GYSWLLT YR YSGOL AR GYFER Y GWASANAETH CWNSELA MEWN YSGOLION NEU, OS NAD OES DOLEN GYSWLLT, GOFYNNWCH I SIARAD Â'R PENNAETH. |
| Ddim yn gwybod | |

**S2.** ***Beth yw eich lefel uchaf o gyfrifoldeb ar hyn o bryd?*** DARLLENWCH Y CATEGORÏAU. COD SENGL YN UNIG.

| | |
|---|---|
| Pennaeth / Prifathro | PARHAU |
| Dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol | |
| Tîm uwch reolaeth neu arweinyddiaeth arall | |
| Athro / darlithydd dosbarth neu bwnc | OS IE YN Q1 PARHAU<br>OS NAGE YN Q2, GWIRIWCH GYDA GORUCHWYLIWR |
| Arall (nodwch os gwelwch yn dda) | |

**S3*. A ydych yn fodlon i fynd ymlaen gyda'r cyfweliad, ac i ni gael rhannu eich atebion gyda'r consortiwm a enwir uchod?***

| | |
|---|---|
| Ydwyf | PARHAU |
| Nac ydwyf | DIOLCH A DIWEDDU |

**OS OES GENNYM GOFNOD O DDYDDIAD CYCHWYN AR Y SAMPL, GOFYNNWCH:**
**S4. Yn ôl ein cofnodion, bu eich ysgol yn gweithredu fel rhan o Strategaeth Genedlaethol Cwnsela mewn Ysgolion y Llywodraeth Cynulliad Cymru ers »dyddiad«. A yw hyn yn gywir?** COD SENGL YN UNIG.

Cywir
Anghywir
Ddim yn gwybod

**OS NA NEU DDIM YN GWYBOD YN S4, NEU OS NAD OES COFNOD O DDYDDIAD CYCHWYN Y SAMPL, GOFYNNWCH: Tua phryd dechreuodd eich ysgol weithredu fel rhan o Strategaeth Genedlaethol Cwnsela mewn Ysgolion y Llywodraeth Cynulliad Cymru?** NODWCH Y FLWYDDYN A'R MIS (neu'r bras amcan agosaf)

| | |
|---|---|
| Blwyddyn: | PARHAU |
| Mis: | |
| Ddim yn gwybod | |

**S5. A roddwyd cwnsela mewn ysgolion i ddisgyblion cyn gweithredu fel rhan o Strategaeth Genedlaethol Cwnsela mewn Ysgolion y Llywodraeth Cynulliad Cymru?** COD SENGL YN UNIG.

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

**CYFWELYDD I DDARLLEN:**
**Yng ngweddill y cyfweliad hwn, byddaf yn holi am wasanaeth cwnsela eich ysgol, hynny yw'r gwasanaeth cwnsela a roddir gan yr ysgol yn unol â Strategaeth Genedlaethol Cwnsela mewn Ysgolion Llywodraeth Cynulliad Cymru.**

**Hoffwn ddechrau trwy ofyn i chi am y ddarpariaeth a'r defnydd o'r gwasanaeth cwnsela yn eich ysgol.**

**Q1A yw gwasanaeth cwnsela eich ysgol yn cael ei gynnal yn yr ysgol neu mewn man y tu allan i'r ysgol?** COD SENGL YN UNIG.

Yn yr ysgol
Mewn man y tu allan i'r ysgol
Y ddau

Ddim yn gwybod

**Q2AA yw'r cwnsler (neu'r cwnsleriaid) sy'n gweithio yng ngwasanaeth cwnsela eich ysgol yn cael ei gyflogi (eu cyflogi) gan ….?** DARLLENWCH Y CODAU 1-3. COD SENGL YN UNIG

**Eich ysgol** (EWCH I Q2B)
**Awdurdod addysg lleol** (EWCH I Q3)
**Asiantaeth allanol** (Nodwch pa un os gwelwch yn dda) (EWCH I Q3)

Ddim yn gwybod

GOFYNNWCH A GAIFF Y CWNSLER EI GYFLOGI GAN YSGOL YN Q2A
**Q2B. Oes gan y cwnsler sy'n gweithio yn eich ysgol, rôl arall yn eich ysgol, er enghraifft yn athro neu**

**yn nyrs ysgol?** COD SENGL YN UNIG.

Oes
Nac oes
Ddim yn gwybod

GOFYN I BAWB
**Q3. A yw'r cwnsler sy'n gweithio yn eich ysgol yn cynnal sesiynau rheolaidd, neu yn ymweld yn ad-hoc fel bo'r angen?** COD SENGL YN UNIG.

Sesiynau rheolaidd
Ad-hoc fel bo'r angen
Arall (nodwch beth os gwelwch yn dda)
Ddim yn gwybod

**Q4. Unwaith i ddisgybl cael ei ddynodi bod arno(i) angen gweld cwnsler, pa mor hir fel arfer, rhaid i'r disgybl aros am ei (h)apwyntiad cyntaf?** COD SENGL YN UNIG.

Yr un diwrnod
Dau i dri diwrnod
Pedwar i bum diwrnod
Un i ddwy wythnos
Tair i bedair wythnos
Yn hwy na phedair wythnos
Ddim yn gwybod

**Q5A. A oes yna nifer uchaf o sesiynau a gynigir i bob disgybl yn eich ysgol sydd angen cwnsela?** COD SENGL.

Oes (EWCH I Q5B)
Nac oes (EWCH I Q7)
Ddim yn gwybod (EWCH I Q7)

OS 'OES' YN Q5A, ERAILL I Q7
**Q5B. Fel arfer, beth yw'r nifer mwyaf o sesiynau a gynigir i bob disgybl?**

YSGRIFENNWCH Y RHIF
Ddim yn gwybod

GOFYN I BAWB
**Q7-23 Rwyf am ddarllen cyfres o ddatganiadau a fydd efallai yn disgrifio gwasanaeth cwnsela eich ysgol. Am bob datganiad, rwyf am i chi ddweud os ydych yn cytuno'n gryf, yn cytuno, dim yn cytuno nag yn anghytuno, yn anghytuno neu yn anghytuno'n gryf.** DARLLENWCH. TROWCH Y DATGANIADAU ROWND. GWRTH-DROWCH Y FFRÂM COD I 50% O'R YMATEBWYR. COD SENGL I BOB UN. CANIATÁU DDIM YN GWYBOD.

| | | Cytuno'n gryf | Cytuno | Dim yn cytuno nag yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 7 | Mae'r safle ar gyfer gwasanaeth cwnsela'r ysgol yn ddigonol | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 8 | Mae'r staff yn f'ysgol wedi cael digon o hyfforddiant i wybod pan mae angen cyfeirio disgybl at gwnsler yr ysgol. | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 9 | Lleolir y gwasanaeth mewn safle sy'n hawdd i ddisgyblion cael mynediad | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 10 | Fe roddir cwnsela mewn gosodiad priodol sy'n breifat ond yn ddiogel yn agos i'r ysgol | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 11 | Mae'r gweithdrefnau ar gyfer monitro a gwerthuso'r gwasanaeth cwnsela yn foddhaol | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 12 | Mae lefel staffio'r gwasanaeth cwnsela yn ddigonol | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 13 | Mae adnoddau digonol ar gyfer y gwasanaeth cwnsela yn f'ysgol | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 14 | Mae'r gwasanaeth cwnsela yn gweithio'n agos gyda mentrau eraill i gefnogi iechyd a lles yn yr ysgolion | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 15 | Mae'r gwasanaeth cwnsela yn rhan annatod o ddarpariaeth yr ysgol | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 16 | Derbyniodd f'ysgol ddigon o gefnogaeth i ddatblygu ac i gyflwyno ei wasanaeth cwnsela mewn ysgolion yn effeithiol | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 17 | Mae cyhoeddusrwydd da i'r gwasanaeth cwnsela yn yr ysgol | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 18 | Mae'r gwasanaeth cwnsela yn sensitif i anghenion gwahanol gymunedau a grwpiau ethnig | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 19 | Mae agwedd y gwasanaeth tuag at gyfrinachedd yn cydbwyso anghenion y rhieni, y plant a diogelu gweithdrefnau yn briodol | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 20 | Mae'r gwasanaeth cwnsela yn sensitif i anghenion siaradwyr Cymraeg | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 21 | Mae gan y gwasanaeth cwnsela cefnogaeth weinyddol da | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 22 | Mae gan y gwasanaeth cwnsela cefnogaeth weinyddol da | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 23 | Bu'r broses o sefydlu'r gwasanaeth cwnsela yn effeithiol a heb broblem | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |

**Q24. Yn eich barn chi, pa effaith, os oes un, yw eich gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion yn cael ar bob un o'r canlynol yn eich ysgol?** DARLLENWCH. TROWCH Y DATGANIADAU ROWND. GWRTH-DROWCH Y FFRÂM COD I 50%. COD SENGL I BOB UN.

**a. Ymddygiad y disgyblion a dderbyniodd cwnsela ysgol**
**b. Lefel cyrhaeddiad y disgyblion a dderbyniodd cwnsela ysgol**
**c. Presenoldeb y disgyblion a dderbyniodd cwnsela ysgol**

Wedi gwella'n arw
Wedi gwella rhywfaint
Wedi gwella ychydig
Dim newid (dim effaith)
Gwaethygu ychydig
Gwaethygu rhywfaint
Gwaethygu'n arw

Ddim yn gwybod

GOFYN I BAWB
**Q25. Ac yn eich barn chi, pa effaith cafodd eich gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion ar FAICH GWAITH STAFF yn eich ysgol?** DARLLENWCH. TROWCH Y DATGANIADAU ROWND. GWRTH-DROWCH Y FFRÂM COD I 50%. COD SENGL I BOB UN.

Wedi cynyddu'n arw
Wedi cynyddu rhywfaint
Wedi cynyddu ychydig
Dim newid (dim effaith)
Gostwng ychydig
Gostwng rhywfaint
Gostwng yn arw

Ddim yn gwybod

**Q26. Yn gyffredinol, pa mor dda ydych yn teimlo bod gwasanaeth cwnsela eich ysgol ar hyn o bryd yn cyfarfod anghenion y disgyblion?** DARLLENWCH. TROWCH Y DATGANIADAU ROWND. GWRTH-DROWCH Y FFRÂM COD I 50%. COD SENGL I BOB UN.

Yn dda iawn
Yn eithaf da
Dim yn dda iawn
Dim yn dda iawn o gwbl

Ddim yn gwybod

GOFYNNWCH A ATEBWYD ‘DO’ YN QS5 (WEDI GWEITHREDU SYSTEM CWNSELA MEWN YSGOL CYN STRATEGAETH CWNSELA MEWN YSGOLION LICC). ERAILL, EWCH I Q28

**Q27 Yn gyffredinol, yn eich barn chi, a yw gwasanaeth cwnsela eich ysgol yn well neu yn waeth ers i Strategaeth Genedlaethol Cwnsela mewn Ysgolion y Llywodraeth Cynulliad Cymru cael ei gyflwyno ar »dyddiad«, neu ni fu newid?** COD SENGL YN UNIG.

Llawer gwell (EWCH I Q27A)
Ychydig yn well (EWCH I Q27A)
Dim newid (EWCH I Q29)
Ychydig yn waeth (EWCH I Q27B)
Llawer gwaeth (EWCH I Q27B)
Ddim yn gwybod (EWCH I Q29)

GOFYNNWCH OS MAI “GWELL” YN Q27
**Q27A Pam ydych yn dweud ei fod wedi gwella?** PEIDIWCH Â’I DDARLLEN ALLAN. AML GOD OCE.

Mwy o gyllid ar gael

Cwnsleriaid gwell ar gael
Darpariaeth ar gael yn fwy rheolaidd
Darpariaeth ar gael i fwy o ddisgyblion
Mae yna well ffocws / cynllun ar y strategaeth rŵan
Mae lle gwell ar gael
Mae'r gwasanaeth cwnsela yn fwy agos gysylltiedig rŵan â gweddill yr ysgol.
Gwell dealltwriaeth rhwng cwnsleriaid a gweddill staff yr ysgol
Yn fwy sensitif i anghenion grwpiau gwahanol
Mynediad haws i'r gwasanaeth
Gwell cyfleoedd am hyfforddiant ar gael i gwnsleriaid.
Mynediad haws i wasanaethau cwnsela i blant
Arall - NODWCH
Ddim yn gwybod

EWCH I Q29

GOFYNNWCH OS MAI "GWAETH" YN Q27
**Q27B Pam ydych yn dweud ei fod yn waeth?** PEIDIWCH Â'I DDARLLEN ALLAN. AML GOD OCE.

Ansawdd y cwnsela yn is
Llai o gyllid ar gael
Darpariaeth ar gael yn llai aml
Darpariaeth ar gael i lai o ddisgyblion
Mae'r ffocws / cynllun ar y strategaeth yn waeth rŵan
Nid yw'r lle sydd ar gael cystal rŵan
Llai o ryddid i wneud yr hyn mae'r ysgol eisiau
Mwy o amser ar weinyddu
Nid yw'r gwasanaeth cwnsela mor agos gysylltiedig â gweddill yr ysgol rŵan
Llai o ddealltwriaeth rhwng y cwnsleriaid a gweddill staff yr ysgol
Llai o sensitifrwydd i anghenion grwpiau gwahanol
Anoddach i gael mynediad at y gwasanaeth
Nid yw'r hyfforddiant i gwnsleriaid gystal ag a fu o'r blaen
Arall - NODWCH
Ddim yn gwybod

**Q29. Beth, os rhywbeth, a fyddai'n gwella'r gwasanaeth cwnsela yn eich ysgol?** PEIDIWCH Â'I DDARLLEN ALLAN. AML GOD OCE.

Mwy o gyllid (h.y. swm mwy)
Mwy o gyllid parhaus / ymroddedig (h.y. dros gyfnod o amser)
Mwy o staff cwnsela
Mwy o sesiynau cwnsela, a sesiynau hwy
Gwell adnoddau /lle ar gael
Mwy o ddiddordeb /dealltwriaeth gan ddisgyblion
Mwy o gefnogaeth / dealltwriaeth gan staff yr ysgol
Mwy o gefnogaeth gan y rheolwyr
Gweithio gyda mudiadau ac ysgolion eraill
Mwy o gyswllt rhwng y cwnsleriaid a'r staff
Arall - NODWCH OS GWELWCH YN DDA

Dim byd
Ddim yn gwybod

**Q31. Fel rhan o'r ymchwil hwn, bydd y consortiwm yn cynnal ymweliadau â rhai achosion astudiaeth mewn nifer fechan o ysgolion yn gynnar yn 2011. Fedrem drefnu amser gyda chi er mwyn ymweld â'r ysgol i gyfweld rhai o'r myfyrwyr a nifer fechan o staff yr ysgol. A fyddai'ch ysgol, mewn egwyddor, yn barod i gymryd rhan? Os felly, a phroffil eich ysgol yn addas, gallwn gysylltu â chi yn agosach at yr amser.**
Bydd yn iawn
Ni fydd yn iawn
Ddim yn gwybod

OS MAE ‘BYDD YN IAWN’ OEDD YR ATEB
**Diolch. Gyda phwy ddylem gysylltu yn agosach at yr amser?**

Gwiriwch y manylion cyswllt a gofyn am rif ffôn a chyfeiriad e-bost yr ysgol.
Diolch i’r ymatebydd.

**Atodiad 3: Holiadur i arweinwyr awdurdodau lleol**

**Gwerthusiad o weithredu'r Strategaeth Genedlaethol Cwnsela mewn Ysgolion y Llywodraeth Cynulliad Cymru**

Nod yr holiadur hwn i Arweinwyr a Rheolwyr Gwasanaethau mewn Llywodraeth Leol yw casglu gwybodaeth a chael eich barn ar effeithiolrwydd gweithredu'r strategaeth cwnsela mewn ysgolion yng Nghymru. Mae'n rhan o astudiaeth ehangach ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) gyda'r nod o ddynodi gwelliannau ar weithredu'r strategaeth cwnsela mewn ysgolion.

**Cedwir y wybodaeth yn hollol gyfrinachol a chaiff ei drin gyda'r parch mwyaf. Ni chaiff, dan unrhyw amgylchiadau, cyfranwyr unigol cael ei adnabod yn yr adroddiadau.**

**Y GWASANAETH YR YDYCH YN EI ARWAIN/RHEOLI**

1. Beth yw eich rôl chi mewn perthynas â’r Strategaeth Cwnsela Genedlaethol Llywodraeth Genedlaethol Cymru sy’n seiliedig ar Ysgolion?

   a) Arweinydd Llywodraeth Leol ☐

   b) Rheolwr Gwasanaeth ☐

   c) Arall (manylion os gwelwch yn dda) ______________________________

2. Ym mha Awdurdod Lleol yng Nghymru ydych chi yn arwain y gwasanaeth cwnsela i ysgolion **<u>NEU</u>** pa Wasanaeth ydych chi yn ei reoli mewn perthynas â strategaeth cwnsela ysgolion LlCC?

   ____________________________________________________________________

3. Am ba mor hir bu'r gwasanaeth cwnsela ysgolion yr ydych yn ei arwain / rheoli yn cael ei weithredu fel rhan o strategaeth cwnsela mewn ysgolion y Llywodraeth Cynulliad Cymru?

   Blynyddoedd ☐ Misoedd ☐

   Dydw i ddim yn gwybod ☐

4. Am ba mor hir ydych chi wedi bod yn Prif Arweinydd / Rheolwr Gwasanaeth eich Awdurdod Lleol ar gyfer y strategaeth cwnsela LICC sy'n seiliedig ar ysgolion?

Blynyddoedd ☐ Misoedd ☐

5. A oes yna nifer uchaf o sesiynau yn cael ei gynnig i bob cleient yn eich gwasanaeth?

Oes ☐ Nac oes ☐

Dydw i ddim yn gwybod ☐

Os oes, manylwch os gwelwch yn dda ___________________________

**EICH BARN AR GWNSELA MEWN YSGOLION**

Rhowch gylch ar yr ymateb priodol gan fynegi i ba raddau yr ydych yn cytuno neu yn anghytuno gyda phob datganiad mewn perthynas â'r gwaith rydych yn ei wneud fel rhan o Strategaeth Cwnsela mewn Ysgolion y Llywodraeth Cynulliad Cymru. Dylai'r atebion fod yn seiliedig ar **GYFARTALEDD AR DRAWS POB YSGOL DAN EICH GWASANAETH / AWDURDOD LLEOL.**

**Os nad ydych yn gwybod yr ateb neu'n teimlo'n na fedrwch ateb cwestiwn, peidiwch â llenwi'r bwlch os gwelwch yn dda.**

| | | Cytuno'n gryf | Cytuno | Dim yn cytuno nag yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Mae'r safle ar gyfer y gwasanaeth cwnsela yn ddigonol | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 2 | Mae'r gwasanaethau yn hawdd i ddisgyblion cael atynt | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 3 | Fe roddir cwnsela mewn gosodiad priodol sy'n breifat ond yn ddiogel yn agos i'r ysgol | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 4 | Mae'r gweithdrefnau ar gyfer monitro a gwerthuso'r gwasanaeth cwnsela yn foddhaol | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 5 | Mae lefel staffio'r gwasanaeth cwnsela yn ddigonol | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 6 | Mae adnoddau digonol ar gyfer y gwasanaeth cwnsela | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 7 | Rydym yn cynnig hyfforddiant i gwnsleriaid ysgol yn ein hawdurdod lleol ni | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 8 | Mae'r gwasanaeth cwnsela yn gweithio'n agos gyda mentrau eraill i gefnogi iechyd a lles yn yr ysgolion | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 9 | Fe baratoir trefniadau priodol ar gyfer goruchwyliaeth clinigol i gwnsleriaid | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 10 | Mae'r gwasanaeth cwnsela yn rhan annatod o ddarpariaeth yr ysgol | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 11 | Mae cyhoeddusrwydd da i'r gwasanaeth cwnsela yn yr ysgol | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 12 | Mae'r gwasanaeth cwnsela yn sensitif i anghenion gwahanol gymunedau a grwpiau ethnig | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 13 | Mae agwedd y gwasanaeth tuag at gyfrinachedd yn cydbwyso anghenion y rhieni, y plant a diogelu gweithdrefnau yn briodol | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 14 | Mae'r gwasanaeth cwnsela yn sensitif i anghenion siaradwyr Cymraeg | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 15 | Mae gan y gwasanaeth cwnsela cefnogaeth weinyddol da | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 16 | Fe gydnabyddir ac fe werthfawrogir y gwasanaeth cwnsela gan staff yr ysgol | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 17 | Bu'r broses o sefydlu'r gwasanaeth cwnsela yn effeithiol a heb broblem | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 18 | Fe gydnabyddir ac fe werthfawrogir y gwasanaeth cwnsela gan y rhieni | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |

**Gwybodaeth ychwanegol**

A ydych o'r farn bod gan y gwasanaeth cwnsela yr ydych chi yn ei arwain / rheoli perthynas da gyda gwasanaethau arbenigol megis CAMHS, gwasanaethau cymdeithasol, seicoleg addysgol ayb?

Ydwyf ☐ Nac ydwyf ☐

Dydw i ddim yn gwybod ☐

Esboniwch eich ymateb os gwelwch yn dda

| |
|---|
| |

Beth yw eich barn am gryfderau Strategaeth Cwnsela mewn Ysgolion y Llywodraeth Cynulliad Cymru?

| |
|---|
| |

Beth yw eich barn am wendidau Strategaeth Cwnsela mewn Ysgolion y Llywodraeth Cynulliad Cymru?

Pa awgrymiadau a fyddech yn gwneud i wella'r Strategaeth Cwnsela?

**Diolch yn fawr i chi am gwblhau'r holiadur hwn.**
**Dychwelwch yn yr amlen os gwelwch yn dda**